Cymraeg TGAU – **Help Llaw**

gydag astudio



Nodiadau astudio **gan Owain Siôn Williams**

@ebol

Cydnabyddiaethau

Golygwyd gan **Bethan Clement ac Eirian Jones**
Map gan **Ceri Jones**
Dyluniwyd gan Stiwdio Ceri Jones, **stiwdio@ceri-talybont.com**
Diolch i Wasg Y Lolfa am eu caniatâd i ddefnyddio clawr y nofel wreiddiol

Noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Cyhoeddwyd gan Atebol Cyfyngedig, Adeiladau'r Fagwyr, Llanfihangel Genau'r Glyn, Aberystwyth, Ceredigion SY24 5AQ
www.atebol.com

ISBN: 978-1-907004-91-9

Cynnwys

1.	Lleoliadau'r nofel	4
2.	Bethan Gwanas	5
3.	Cyd-destun y nofel	6
4.	Crynodeb o'r stori	7
5.	Plot ac adeiladwaith y nofel	9
6.	Cip ar y cymeriadau	11
7.	Dadansoddiad o'r prif gymeriadau	13
8.	Crynodeb o'r testun	20
9.	Iaith ac arddull	26
10.	Esbonio dyfyniadau pwysig	33
11.	Cwestiynau arholiad	37
12.	Atebion y cwestiynau arholiad	46
13.	Cwis	56
14.	Atebion y Cwis	62

1. Lleoliadau'r nofel

Canolfan Gweithgareddau Awyr-agored



2. Bethan Gwanas

Mae Bethan yn awdures boblogaidd i blant, pobl ifanc ac oedolion ac mae nifer o'i chyfrolau wedi ennill gwobrau iddi.

Efallai eich bod wedi darllen rhai o'i nofelau eraill hi – *Ceri Grafu, Pen Dafad, Sgôr* a *Hi yw fy Ffrind*. Cafodd ei nofel gyntaf *Amdani!* ei haddasu yn gyfres ddrama deledu lwyddiannus. Stori am dîm rygbi merched oedd y nofel hon.

Mae Bethan wedi teithio'r byd wrth gyflwyno cyfres deledu *Ar y Lein*, ond bu hi hefyd

- yn athrawes wirfoddol yn Gbara, Nigeria
- yn gwneud ymarfer dysgu mewn canolfan yn Nant Gwynant
- yn dysgu Ffrangeg a gweithgareddau awyr agored yn Ysgol Tryfan, Bangor
- yn ddirprwy bennaeth Gwersyll yr Urdd Glan-Llyn.

Mae rhai yn credu mai ei phrofiadau yn Glan-Llyn a ysbrydolodd *Llinyn Trôns*, ond yr ymafer dysgu yn Nant Gwynant roddodd y syniad iddi mewn gwirionedd.

Mae hi wrth ei bodd yn gweithio gyda phobl ifanc ac mae hi'n hoffi ysgrifennu ar y cyd gyda nhw.

Enillodd *Llinyn Trôns* wobr Tir na n-Og yn 2001.

3. Cyd-destun y nofel

Nofel wedi'i lleoli mewn canolfan gweithgareddau awyr-agored tebyg i wersyll yr Urdd yng Nglan-Llyn ger y Bala yw *Llinyn Trôns*. Mae'r stori'n digwydd yn ystod yr haf ar ddiwedd yr 20fed ganrif. Disgyblion un-ar-bymtheg oed yw'r criw sydd newydd gwblhau eu harholiadau TGAU ac yn disgwyl canlyniadau eu harholiadau tra'u bod nhw yn y ganolfan. Mae'r disgyblion yn dod o ysgol yng Ngogledd Cymru. Rydyn ni'n gweld hyn trwy'r dafodiaith maent yn ei siarad gyda'i gilydd.

Mae Llion, Dei, Gags, Nobi, Gwenan ac Olwen yn yr un flwyddyn yn yr ysgol, Tecs Pecs yw eu hathro Ymarfer Corff a Donna yw eu hyfforddwraig yn y ganolfan.

Mae'r gwrthdaro, yr hormonau a'r elfen gystadleuol sy'n bresennol mewn criwiau o ffrindiau ym mlwyddyn 11 yn bresennol gyda'r criw yma o chwech yn ogystal. Mae elfen o dorri rheolau ac arbrofi yn amlwg yma hefyd gydag alcohol, cyffuriau a rhyw yn bethau naturiol a chyffredin yn eu bywydau.

Er bod y nofel yn perthyn i gyfnod cymharol ddiweddar, mae rhai pethau wedi newid erbyn hyn, e.e.

- Yng nghyfnod y nofel roedd hi'n gyfreithlon i blant 16 oed ysmygu ond erbyn hyn mae'n rhaid bod yn 18 oed i gael ysmygu.
- Yn y nofel roedd Gags a Nobi wedi bod yn yfed ac yn ysmygu yn eu hystafell yn y Plas ond erbyn hyn, mae ysmygu mewn adeilad cyhoeddus yn anghyfreithlon.
- Mae datblygiadau technolegol bellach yn dylanwadu'n fawr ar ein bywydau. Yng nghyfnod y nofel, roedd ffonau symudol yn syml iawn o gymharu â ffonau heddiw.

Mae cyfeiriadau yn y nofel at raglenni teledu ac enwogion o ddiwedd y nawdegau, e.e. *Gladiators, South Park, Catchphrase*, Michelle Pfeiffer, Cerys Mathews, Pamela Anderson ac Oprah Winfrey.

4. Crynodeb o'r stori

- Nofel yn sôn am griw o ddisgyblion Blwyddyn 11 sydd newydd orffen eu harholiadau TGAU – Llion, Gags, Nobi, Gwenan, Olwen a Dei.
- Mynd gyda'i gilydd (a'u hathro Ymarfer Corff – Tecs Pecs) mewn bws mini ar gwrs adeiladu cymeriad i ganolfan gweithgareddau awyr-agored am dri diwrnod yn ystod gwyliau'r haf.
- Y gweithgareddau (o dan arweiniad Donna) a'r sgiliau maen nhw'n eu defnyddio wrth weithio fel tîm yn datblygu hyder rhai o'r cymeriadau
- Y plant yn dod i adnabod ei gilydd yn well – perthnasoedd gwahanol yn datblygu rhwng y cymeriadau.
- Gags a Nobi yn chwarae triciau cas ar Llion – ei gario a rhoi ei ben i lawr y tŷ-bach, mynd i ystafell wely Llion a Dei yng nghanol y nos, gwlychu gwely Llion gyda dŵr – eisiau iddo gredu ei fod wedi gwlychu'r gwely.
- Llion yn mwynhau ei hun – gweld Gags a Nobi yn gwneud ffyliaid o'u hunain ac yn syrthio i'r llyn, gweld y ddau'n ffraeo ar ôl i Nobi ollwng y rhaff pan mae Gags yn dringo wyneb y graig.
- Dysgu gwersi am bwysigrwydd
  - peidio â thaflu sbwriel yng nghefn gwlad (ar y mynydd),
  - gwrando ar ei gilydd (tasgau ymenyddol)
  - ymddiried yn ei gilydd (dringo'r graig).
- Erbyn diwedd y cwrs, Llion wedi magu hyder – Olwen, Gwenan, Nobi a Dei yn sylweddoli bod Llion yn aelod pwysig o'u tîm
- Y diwrnod llawn olaf – Gags a Gwenan yn ffraeo
- Y tu allan i'r disgo ar y noson olaf – Llion, Gwenan ac Olwen yn yfed fodca
- Llion yn dawnsio gyda Gwenan – y ddau'n mynd yn ôl allan i snogio'n wyllt ond Gwenan yn chwydu ei swper o sosej, bîns a tships dros esgidiau Llion!
- Bore olaf – canlyniadau TGAU.
  - Gags ar goll – neb wedi'i weld ers y disgo.
  - Donna a gweithwyr y ganolfan yn mynd i chwilio amdano.
  - Donna'n dod o hyd i'w gorff ar waelod y graig lle'r oedden nhw'n abseilio'n gynt yn y nofel.
- Gags wedi bod yn poeni'n dawel am ei ganlyniadau

- Y diweddglo'n gadael i ni ddyfalu ai damwain oedd hi neu cyflawni hunanladdiad a wnaeth drwy daflu ei hun oddi ar y graig.
- Roedd Gags wedi cael canlyniadau TGAU gwych.
- Bywydau'r criw yn gorfod mynd yn eu blaenau.
- Gwenan yn mynd allan gyda bachgen o'r enw Jason a Llion yn gariad i Olwen erbyn diwedd y nofel.
- Y criw yn penderfynu dringo'r Wyddfa a phlannu coeden yng nghae'r ysgol i gofio am Gags.

5. Plot ac adeiladwaith y nofel

Mae'r nofel yn dilyn trefn gronolegol.

- **Penodau 1 a 2** – y daith yn y bws mini i'r ganolfan a digwyddiadau'r noson gyntaf (gwthio pen Llion i lawr y tŷ bach).

- **Penodau 3 a 4** – gweithgareddau'r diwrnod llawn cyntaf sef dringo mynydd ac arwain, a chanŵio ar y llyn.

- **Penodau 5 a 6** – gweithgareddau'r ail ddiwrnod sef dringo craig fechan cyn abseilio i lawr yn y bore, ac yna abseilio i lawr y graig fawr yn y prynhawn.

- **Penodau 7, 8 a 9** – gweithgareddau'r trydydd diwrnod sef y tasgau ymenyddol yn y goedwig yn ystod y dydd a'r twmpath a'r disgo gyda'r nos.

- **Pennod 10** – dod o hyd i gorff Gags ar waelod y graig a'r diweddglo.

Mae'r nofel wedi'i hysgrifennu o safbwynt Llion ac felly yn y person cyntaf. Mae'r stori wedi'i hysgrifennu yn y presennol ac yn ymsonol iawn er bod Llion yn edrych yn ôl ar rai digwyddiadau sydd wedi digwydd yn gynt yn ystod y dydd.

Erbyn diweddglo'r nofel, mae cyfnod o amser wedi mynd heibio. Mae Llion yn esbonio
- beth ddigwyddodd ar ôl i Donna ddod o hyd i gorff Gags
- beth mae pobl yn ei gredu wnaeth gyfrannu at ei farwolaeth
- beth sydd wedi digwydd i weddill y criw yn dilyn y digwyddiad hwnnw.

Mae Llion yn dangos bod eu bywydau i gyd yn gorfod symud ymlaen ond bydd y criw yn gwneud rhywbeth penodol i gofio am Gags.

Dulliau Datgelu
Er bod marwolaeth Gags yn dod fel sioc i bawb ar ddiwedd y nofel, mae Bethan Gwanas wedi awgrymu bod rhywbeth fel hyn yn mynd i ddigwydd. Mae hyder cymeriad Gags yn pylu o flaen ein llygaid ac yn annodweddiadol o gymeriad cryf capten y tîm rygbi. Mae'n troi i fod yn wrth-arwr yn y nofel. Dyma rai digwyddiadau yn y nofel sy'n ein harwain at y diweddglo.

Mae Gags a Gwenan yn ffraeo am nad yw Gwenan eisiau dringo'r graig fach. Mae Dei yn dweud ei bod hi'n gwneud *"lles i rywun wynebu rhywbeth mae o – neu hi – wir yn ei*

ofni weithiau," ac mae hyn yn cyfeirio at yr ofn sydd ar Gags wrth wynebu ei ganlyniadau TGAU.

- Mae Gags yn llithro i lawr y graig fach am nad oedd Nobi'n canolbwyntio gyda'r rhaff. Mae hyn yn awgrym cryf o sut y mae Gags yn mynd i farw ar ddiwedd y nofel.
- Mae'r criw'n cerdded i ben y graig fawr a Donna'n adrodd hanes merch ddeunaw oed y plas yn lladd ei hun erstalwm drwy *"daflu ei hun oddi ar y top ... hogan ddel, hoffus a bywyd braf o'i blaen."* Pan mae Donna'n dod o hyd i gorff Gags ar ddiwedd y nofel rydyn ni'n cofio am y stori hon.
- Mae Llion, Olwen a Gwenan yn trafod Gags ar noson y disgo a Gwenan yn datgelu mai *"yr ecsams 'ma sydd wedi deud arno fo ... mae o wedi bod yn gweithio'n uffernol o galed."*
- Mae Donna'n sylwi ar noson y disgo bod rhywbeth yn poeni Gags ac mae hi'n trio siarad ag ef – *"Do'n i'm yn lecio'r olwg oedd arno fo. Mae 'na rwbath ar ei feddwl o ..."*
- Nid yw Gags wedi cysgu yn ei wely y noson honno. Mae Nobi'n credu ei fod wedi cysgu'r nos gyda Gwenan. Amser brecwast mae'r criw yn sylweddoli bod Gags ar goll.

Mae Llion yn ffansïo Gwenan ac mae hynny'n amlwg i bawb. Mae Llion yn llwyddo i gael snog gyda hi ar noson y disgo.

- O'r dechrau mae ei sylwadau ymsonol yn cyfeirio ati fel *"... babe. Stoncar, sdynar, pishyn, rheina i gyd."*
- Wrth i'r criw ysgrifennu eu gobeithion am y tridiau ar bapur mae Llion yn osgoi ysgrifennu *"ac y bydd Gwenan yn dympio Gags ac yn copio off efo fi,"* rhag ofn i rywun ei ddarllen a gwneud hwyl am ei ben.
- Yna wrth i Llion roi'r cyfle iddi arwain ar y mynydd mae Gags yn sylwi ac yn ei rybuddio, *"Dw i'n dallt dy gêm di, ond fysai hogan smart fel Gwenan byth yn sbïo ar linyn trôns pathetic fatha chdi."*
- Mae Olwen wedi sylwi hefyd wrth iddi wylio Llion yn syllu ar ben-ôl Donna sy'n dringo'r graig, *"Wel, wel, pwy fysai'n meddwl ... dy fod ti'n gallu sbio ar rywun heblaw Gwenan."*
- Wrth wneud y tasgau ymenyddol mae Llion yn gorfod gafael yn nwylo Gwenan a gafael yng nghefn ei throwsus i'w chodi i ben y graig yn ddiogel ac mae'n dweud wrtho, *"Diolch Llion ... ond mi wnest ti fwynhau hynna fwy na fi yn do?"* sy'n dangos ei bod hithau wedi sylwi bod gan Llion deimladau tuag ati.

Canolbwynt y nofel yw Llion a sut y mae'n datblygu o ran ei gymeriad wrth fagu hyder drwy gydweithio â phobl eraill. Mae hyn mewn cyferbyniad â chymeriad Gags sy'n dechrau'n hyderus ac yn datblygu ofn a phryder nes methu â wynebu ei ganlyniadau TGAU.

6. Cip ar y cymeriadau

Llion Jones – (Llinyn Trôns)
Bachgen 16 oed yw Llion ac ef yw prif gymeriad y nofel. Mae e newydd sefyll ei arholiadau TGAU. Mae'n denau iawn a chafodd y llysenw "Llinyn Trôns" gan ei dad pan ddaeth yn olaf yn y ras wy ar lwy yn yr ysgol gynradd. Mae'n fachgen tawel sy'n hoffi bod ar ei ben ei hun o flaen y cyfrifiadur. Doedd e ddim eisiau mynd ar y cwrs ond erbyn y diwedd mae e'n fwy hyderus ac yn mwynhau'r gweithgareddau a bod yn rhan o dîm. Mae Nobi a Gags yn gwneud hwyl am ei ben ac yn ei fwlio. Mae Llion yn ffansïo Gwenan (cariad Gags) ac yn ei snogio ar noson y disgo. Nid yw'n hoff o weithgareddau chwaraeon am nad yw cystal â'i frawd mawr, Merfyn.

Gags
Cariad Gwenan yw Gags. Mae'n gyhyrog, golygus a heini ac yn gapten y tîm rygbi, pêl-droed a chriced. Mae e hefyd yn fachgen clyfar ond mae'n poeni am ei ganlyniadau TGAU. Cymeriad hyderus iawn ydyw ar y dechrau ond mae'n colli'r hyder wrth i'r nofel fynd yn ei blaen. Gyda'i ffrind, Nobi, mae'n chwarae triciau cas ar Llion yn y ganolfan. Gags yw ffefryn Tecs Pecs, yr athro Ymarfer Corff, ac nid yw eisiau ei siomi. Nid yw'n hoffi pobl yn chwerthin am ei ben pan mae pethau'n mynd o chwith. Mae'n ofni uchder ac yn methu gwneud yr abseil. Mae'n ysmygu, yfed alcohol a chymryd cyffuriau. Gags yw'r gwrth-arwr sy'n marw ar ddiwedd y nofel.

Nobi
Ffrind gorau Gags yw Nobi ond maen nhw'n ffraeo llawer yn y ganolfan.
Mae'n chwe throedfedd o daldra ac yn gryf. Mae'n chwarae i dîm pêl-droed yr ysgol ond mae bob amser yn chwarae'n fudr. Mae'n pigo'n gyson ar Llion a Dei yn yr ysgol ac yn y ganolfan ond hefyd yn pwdu'n gyson os nad yw'n cael ei ffordd ei hun neu os yw pethau'n mynd o chwith. Nid yw'n fodlon gwrando ar neb ond Gags – mae o'n eithaf twp. Mae o'n crafu'i ben ôl drwy'r amser! Mae ei dad yn berchen ar gwmni adeiladu.

Gwenan
Mae Gwenan yn gariad i Gags ond mae Llion yn ei ffansïo hefyd. Mae'n ferch dlws a siapus ond dydy hi ddim yn glyfar iawn. Mae hi wedi cael ei sbwylio ac eisiau ei ffordd ei hun o hyd. Mae hi'n cwyno'n rheolaidd, yn enwedig wrth wneud y gweithgareddau. Mae hi'n ysmygu ac yn yfed alcohol. Mae hi'n cerdded yn araf a does ganddi ddim llawer o gryfder. Dydy hi ddim eisiau dod ar y daith yn y lle cyntaf ond mae hi'n dod i gadw llygad ar Gags achos dydy hi ddim yn ymddiried ynddo. Yn ystod y cwrs mae hi'n magu hyder i ateb Gags yn ôl ond mae hi'n torri ei chalon ar y diwedd pan mae hi'n clywed ei fod wedi marw.

Dei
Mae Dei yn dew. Dyna pam mae pawb yn ei alw'n Dei Dwy Dunnell. Mae e'n hoffi bwyta siocledi a chreision ond nid yw'n hoffi cael ei alw'n "dew". Dei yw ffrind Llion ar y daith ac maen nhw'n rhannu ystafell. Mae Nobi'n gas wrtho ef hefyd. Mae Dei yn fachgen clyfar ac yn cywiro Cymraeg pobl yn gyson. Mae Dei yn gryf iawn ac ym marn Llion byddai'n gwneud prop da i dîm rygbi'r ysgol, ond nid yw Tecs Pecs yn rhoi'r cyfle iddo. Mae Dei yn magu hyder yn ystod y cwrs ac yn llwyddo i wneud pethau nad oedd wedi'u gwneud erioed o'r blaen.

Olwen
Mae Olwen yn ferch dlws ond mae Llion yn cymharu ei phennau gliniau i rai buwch! Mae hi'n ffrind i Gwenan ers yr ysgol gynradd ond mae hi'n credu mai hi yw'r ffrind hyll. Mae Olwen yn alluog iawn ac mae hi'n cael canlyniadau gwych yn TGAU. Mae hi'n ferch i weinidog ond, er hyn, mae hi'n yfed fodca gyda Gwenan y tu allan i'r disgo. Mae hi'n aelod o'r tîm hoci ac mae hi'n gystadleuol iawn. Hi yw cariad Llion ar ddiwedd y nofel.

Donna
Donna yw hyfforddwraig y criw yn y ganolfan. Mae hi'n gyhyrog ond mae hi'n ddel iawn hefyd gyda gwallt hir melyn. Hi sy'n arwain gwahanol aelodau'r criw i wynebu eu hofnau ac i fagu hyder ar y cwrs. Mae'r bechgyn i gyd (a Tecs Pecs) yn ei ffansïo hi. Mae hi'n cael trefn ar agwedd rywiaethol Gags a Nobi. Ar ddiwedd y nofel, hi sy'n dod o hyd i gorff Gags ar waelod y graig.

Tecs Pecs
Athro ymarfer corff yw Tecwyn Jones (Tecs Pecs). Mae'n gyhyrog iawn ac mae e'n gwisgo fest bob amser ac ym mhob tywydd. Mae'n ffafrio ei ddau hoff ddisgybl sef Gags a Nobi. Tecs sy'n gyrru'r bws mini i'r ganolfan. Mae hefyd yn rhannu'r canlyniadau TGAU i'r disgyblion ar y bore olaf yn y ganolfan.

7. Dadansoddiad o'r prif gymeriadau

Llion

Pwynt	Tystiolaeth	Dyfyniad
Ansicr (ar ddechrau'r nofel)	Cymeriad tawel sy'n cadw'i hun iddo'i hun ac yn hoff o chwarae ar ei gyfrifiadur.	Mae athrawon yr ysgol yn "methu cofio pwy ydw i ar noson rieni".
Cuddio'i wir deimladau	Ar ôl i Nobi a Gags roi ei ben i lawr y tŷ bach.	"Dwi'n tueddu i gadw'n act Vesuvius i 'nghartre."
Dideimlad	Efallai mai ei nerfusrwydd o gwmpas merched sy'n gyfrifol am hyn.	Olwen: O'n i wastad yn meddwl y byswn i'n tyfu i fyny i fod yn alarch, ond wnes i byth. Llion: Mwy o chwadan...
Amyneddgar a chyfeillgar	Wrth annog ei ffrindiau mewn gwahanol weithgareddau – gweiddi cefnogaeth ar Dei wrth ddringo i fyny'r graig ar raff, rhoi'r cyfle i Gwenan arwain gyda'r map wrth ddringo'r mynydd.	"Fyddi di'n iawn 'sti, jest mater o falans ydi o'n fwy na dim. Wyt, ti'n drymach na fi, ond ti lot cryfach hefyd."
Hyderus (erbyn diwedd y nofel)	Llwyddo mewn tasgau a gweithgareddau, bodlon rhoi cynnig ar bopeth.	Wrth abseilio – "ro'n i'n teimlo fel plentyn chwech oed unwaith eto, ac mi ddechreuais i chwerthin – allwn i'm peidio."

Gags

Pwynt	Tystiolaeth	Dyfyniad
Hyderus	Mae ei edrychiad, ei allu a'i gryfder yn gwneud i bobl eraill ei edmygu neu fod yn genfigennus ohono.	"Mae o'n foi smart, tal efo six-pack. Ac yn waeth na hynny, mae o'n beniog hefyd, damia fo, ac yn gapten pob diawl o bob dim, y tîm rygbi, pêl-droed a chriced."
Rhywiaethol (sexist)	Wrth weld mai merch fydd yn hyfforddi'r grŵp.	"Jest synnu mai merch ydach chi."
Cas	Tuag at Llion yn benodol e.e. rhoi ei ben i lawr y tŷ-bach, gwlychu ei wely, ar ôl i Llion ddewis Gwenan i arwain i ben y mynydd.	"Gwranda 'ma'r snichyn bach slei. Dw i'n dallt dy gêm di, ond fysai hogan smart fel Gwenan byth yn sbïo ar linyn trôns pathetic fatha chdi."
Balch	Nid yw Gags yn hoffi i rywun chwerthin am ei ben neu wneud ffŵl ohono'i hun o flaen pobl eraill e.e. cael ofn wrth abseilio a syrthio i'r llyn.	"Roeddan ni i gyd yn fud, yn methu credu bod Gags, yr hogyn mawr, cry, athletaidd a oedd mor siwr ohono'i hun, yn griddfan ar ei bedwar, jest â beichio crio."
Pryderus	Poeni am ei ganlyniadau TGAU ond yn methu â dweud hynny wrth neb.	Roedd mam Gags yn "amau erstalwm ei fod o'n poeni am yr arholiadau, ond ei bod hi ofn codi'r peth efo fo. Doedd Gags ddim yn un am drafod ei deimladau".

Nobi

Pwynt	Tystiolaeth	Dyfyniad
Annifyr	Hoff o bigo ar bobl sy'n llai cyhyrog neu'n fyrrach nag ef ei hun.	"Sut mae'r biceps heddiw, Llinyn Trôns? O sori! 'Sgen ti ddim nac oes?"
Sbeitlyd	Gwneud pethau cas i Llion a dweud pethau cas wrtho e.e. gwlychu gwely Llion yng nghanol y nos.	"Faint o fet y byddi di wedi gwneud yn dy glos go iawn pan fyddi di'n hongian oddi ar y graig ar ddarn bach o raff, y? Wimp!" "Felly ti ydi'r missing link. Edrych fatha mwnci, dringo fatha mwnci."
Twp	Mae'n dibynnu ar Gags i'w arwain drwy'r amser ac yn dilyn Gags fel dafad.	"Mae gan hamster fwy o frên na'r sinach Nobi 'na."
Ofnus	Mae Nobi'n dangos i bawb nad yw'n gymaint o ddyn drwy fod ag ofn disgyn i ddŵr y llyn.	"Ond roedd Nobi wedi dychryn ... ac roedd o wedi hyrddio'i hun ar Gwenan, a honno'n sgrechian mwrdwr ... Ro'n i'n cael mwynhad mawr o weld yr ofn ar ei wyneb o ..."
Ffyddlon	Mae'n ffrind ffyddlon i Gags ac yn casáu os ydyn nhw wedi ffraeo am unrhyw reswm e.e. Nobi ddim yn canolbwyntio wrth i Gags ddringo'r graig.	"Dyna'r tro ola dwi'n dy drystio di!" "O, c'mon Gags ..." "Na, dwi'n ei feddwl o. Mae mêts i fod i edrych ar ôl ei gilydd." "Ia, ond ..." "Cau hi!"

Gwenan

Pwynt	Tystiolaeth	Dyfyniad
Siapus a thlws	Mae Llion a Gags yn gweld Gwenan fel merch dlws.	"Mae hi'n stoncar, stynar, pishyn, rheina i gyd. Mae pawb yn ei ffansïo hi, hyd yn oed yr athrawon, ac mae hi'n gwybod hynny." "Mae ganddi siâp hollol ffantastic, coesau sy'n mynd mlaen am byth a brestiau perffaith."
Eithaf twp	Mae hi'n tueddu i ddweud pethau eithaf twp heb fath o gywilydd e.e. pan gyhoeddodd Donna mai tasgau ymenyddol oedden nhw am eu gwneud un bore.	"Mae hi 'di cachu arna i felly ... gas gen i bethau fel'na. Catchphrase ydi'n limit i."
Diog ac anystwyth	Mae hi'n disgwyl i bobl wneud pethau ar ei rhan hi e.e. mae hi'n disgwyl i Gags gario ei bagiau hi iddi hi. Mae hi hefyd yn ysmygu.	Wrth gerdded i ben y mynydd mae hi'n bell ar ôl pawb, "yn goch ac yn tuchan fel dafad". Y rheswm am hyn yw fod "Mam wastad yn rhoi lifft i mi". "Ydw tad! Cadw fi'n slim tydi?"
Delwedd yn bwysig iddi	Gwisgo dillad anaddas ac anymarferol ar brydiau ar y trip e.e. i fynd i'r disgo mae'n edrych ymlaen i gael gwisgo esgidiau sodlau uchel. Mae hi'n crio pan mae hi'n torri un o'i hewinedd ar y graig.	"Roedd Gwenan yn gwisgo trowsus combat a chrys-t tynn, tynn efo patrwm llewpart neu rwbath arno, a hanner modfedd o baent ar ei hwyneb a'i hewinedd. Rhywiol iawn, ond nid y gêr calla ar gyfer dringo."
Anffyddlon a chenfigennus	Mae hi'n snogio Llion ar noson y disgo. Mae Gags a hi wedi bod yn ffraeo yn ystod y cwrs ac felly mae'n defnyddio Llion i dalu'r pwyth yn ôl i Gags. Mae hi hefyd yn cornelu Donna yn y disgo ac yn ei chyhuddo hi o fynd gyda Gags.	Gwenan: Ti'n meddwl 'mod i'n mynd i adael i chdi ddod yma hebdda i? Gags: O, fel 'na ma'i dallt hi ia? "A pwy mae o'n ei feddwl ydi o yn tw-teimio fi fel'na?"

Dei Dwy Dunnall

Pwynt	Tystiolaeth	Dyfyniad
Gordew	Mae'n hoff o fwyta siocledi a chreision e.e. ar y bws ar y ffordd i'r ganolfan ac wrth gerdded i fyny'r mynydd. Mae'n ymwybodol o'i faint ac yn poeni am hyn ar adegau e.e. wrth geisio ffitio i mewn i'w ganŵ.	"Mae o'n anferth, fel rhyw blancmange mawr, ac yn fy ngwasgu i yn erbyn y ffenest." "A tydi o ddim y boi mwya ystwyth 'chwaith, ddim mewn siwt rwber beth bynnag. Doedd o jest ddim yn gallu rhoi un goes i mewn a chadw balans efo'r llall."
Cryf a phenderfynol	Er ei fod yn pwyso cymaint mae'n llwyddo i ddringo'r graig a chymryd rhan ym mhob gweithgaredd.	"Mae o'n gry' hefyd: mi wnes i sylwi ei fod o'n gallu cario canŵ ar ei ysgwydd fel 'tasai o'n bluen."
Cywiro Cymraeg pawb	Mae nifer o enghreifftiau o hyn yn y nofel.	Ashtray – blwch llwch Lungs – ysgyfaint Propulsion – gyriant
Dewr	Mae Dei yn wynebu un o'i ofnau ar y cwrs sef ei ofn o uchder. Mae'n llwyddo i ddringo'r graig fach ac yn llwyddo i abseilio i lawr y graig fawr.	"A phan gyrhaeddais i'r top, ro'n i wedi gwirioni, ond dyna pryd 'nes i sbio i lawr yn iawn am y tro cynta yn de? Wedyn mi aeth fy mhennau gliniau i fel jeli."

Olwen

Pwynt	Tystiolaeth	Dyfyniad
Cystadleuol	Mae elfen o gystadleuaeth yn bodoli rhwng Nobi/Gags ac Olwen drwy gydol y cwrs e.e. wrth ddringo'r graig, wrth gyfnewid canŵ.	"... roedd Olwen wedi dechrau mynd fel diawl – a Gags. Typical, mentaliti tîm hoci a rygbi, isio curo pawb o hyd."
Heriol	Er ei bod hi'n ferch i weinidog ac felly wedi cael ei magu'n dda, mae hi'n dal i dorri'r rheolau drwy yfed fodca gyda Gwenan ar noson y disgo.	"Mi sbiais yn wirion arni. Wnes i 'rioed ddychmygu y byddai hi'n yfed. Mae ei thad hi'n weinidog wedi'r cwbl. Ond rheiny sydd waetha yn de?"
Heini	Hi yw capten y tîm hoci.	"Dwi'n cofio sylwi bod ganddi bennau gliniau fel buwch pan welis i'r tîm yn ymarfer ryw dro. Wyneb reit ddel, ond coesau diawledig."

Donna

Pwynt	Tystiolaeth	Dyfyniad
Croen-galed	Mae hi'n llwyddo i anwybyddu sylwadau negyddol neu'n llwyddo i ennill dadl bob tro yn erbyn Nobi, Gags a Gwenan.	"Dw i wedi'i ddeud o unwaith, mi ddeuda i eto rhag ofn na 'naethoch chi ddallt tro cynta," meddai Donna. "Dei sy'n arwain. A does 'na'r un ohonoch chi'n cael bod gam o'i flaen o nes dw i'n dewis arweinydd newydd. Iawn?"
Teg	Dydy hi ddim yn ffafrio unrhyw aelod o'r tîm ar unrhyw adeg. Mae hi'n rhoi'r cyfle i bawb ddod i adnabod eu cryfderau a'u gwendidau.	Wrth i Gags a Llion ei helpu hi i gadw'r offer dringo, mae'n holi Gags – "Wyt ti am roi cynnig arall arni ryw dro? 'Dan ni'n cynnal cyrsiau mwy arbenigol yma, dysgu chi sut i arwain, gosod gêr eich hunain ac ati ... Tithau hefyd, Llion?"
Egwyddorol	Mae rheolau cefn gwlad yn bwysig iawn iddi ac mae'n codi ei llais ar Nobi wrth iddo daflu sbwriel ar y mynydd.	"Pan o'n i tua deuddeg oed, roedd gen i ferlen fynydd, Cwmwl – meddwl y byd ohoni. Ond rhyw ddiwrnod, dyma ni'n dod o hyd iddi yn y cae wedi marw. Botulism yn ôl y fet ... afiechyd ti'n 'gael o fwyta pethau fel biffbyrgars drwg aballu. Roedd 'na weddillion picnic wrth ymyl lle farwodd hi."
Cryf a heini	Mae'n gwneud ei swydd yn ardderchog ac mae hi gystal ag unrhyw un o'r dynion sy'n arwain y grwpiau eraill.	"... daeth Donna allan o'r cwt efo rycsac ddwywaith maint ein rhai ni ar ei chefn ... roedd 'na olwg reit galed ar gluniau Donna, a'i breichiau hi hefyd. 'Tasai hi'n dod i sgrap rhwng Nobi a hithau, arni hi byddwn i'n rhoi 'mhres."

8. Crynodeb o'r testun

Pennod 1
Mae tad Llion Jones, "Llinyn Trôns" yn ei orfodi i fynd ar gwrs i ganolfan awyr agored am dri diwrnod. Nid yw Llion eisiau mynd o gwbl ac mae'n poeni gan y bydd yn cael ei ganlyniadau TGAU tra bydd ar y cwrs. Tecs Pecs, yr athro chwaraeon, sydd wedi trefnu'r cwrs er mwyn i'r disgyblion gael *"adeiladu cymeriad"*, ac ef sy'n gyrru'r bws mini. Ar y bws mae Llion yn eistedd gyda Dei ac rydyn ni'n cyfarfod Gags, Nobi, Dei Dwy Dunnall a Gwenan.

Pennod 2
Nid yw Llion yn mwynhau yn y ganolfan awyr agored. Ar y noson gyntaf mae Nobi a Gags yn ei gario i'r tŷ bach ac yna'n gwthio ei ben i lawr y pan. Mae Llion yn rhannu caban gyda Dei Dwy Dunnall ac mae Nobi a Gags yn y caban drws nesaf. Cafodd pawb eu rhannu i grwpiau o chwech ar gyfer gweithgareddau'r tri diwrnod ac, yn anffodus, mae Llion yn yr un grŵp â Nobi a Gags, Dei, Gwenan ac Olwen.

Yna mae Llion yn cyfarfod â Donna, hyfforddwr y grŵp. Mae'r bechgyn i gyd yn ei ffansïo hi. Maen nhw'n gorfod ysgrifennu eu gobeithion am y cwrs ar bapur. Ar ddiwedd y cwrs byddan nhw'n cael gweld y papurau eto i weld sut hwyl gawson nhw.

Pennod 3
Wrth i Llion ddeffro'n fuan am 6:30 mae'n sylweddoli fod ei wely'n wlyb ac mae'n dechrau poeni ei fod wedi gwlychu'r gwely yn ei gwsg. Mae Nobi a Gags yn dod i mewn i'r caban ac maen nhw'n esgus eu bod nhw'n gallu arogli'r drewdod. Maen nhw ar fin gafael yn Llion a'i gario i'r gawod pan ddaw Dei i mewn a sylweddoli bod gan y ddau yma rywbeth i'w wneud â'r digwyddiad.

Am 7:30 y bore mae'r grŵp yn cychwyn cerdded i ben y mynydd. Rhaid i bawb wisgo esgidiau cerdded addas ac mae pawb yn teimlo fel ffyliaid wrth iddyn nhw orfod gwisgo dillad oren arbennig. Mae Gwenan yn araf iawn wrth ddringo'r mynydd am nad yw hi wedi arfer cerdded. Pan mae Nobi yn taflu sbwriel ar y mynydd, mae Donna'n dweud y drefn wrtho ac yn egluro i'r criw pam ei bod hi'n bwysig peidio â thaflu sbwriel i'r gwynt.

Mae Donna'n rhoi'r cyfrifoldeb o arwain y grŵp i Dei. Ar ôl i Dei arwain am hanner awr mae Llion yn cael cyfle ac mae'n dechrau mwynhau'r gweithgaredd. Yna mae Llion yn cael dewis un o'r grŵp i arwain i gopa'r mynydd. Mae'n dewis Gwenan. Nid yw Gags a

Nobi yn hoffi hyn. Ond ar ôl cyrraedd y copa mae pawb yn mwynhau ac yn rhyfeddu at yr olygfa.

Ar y ffordd yn ôl mae hi'n bwrw glaw yn drwm, ac mae Gwenan yn dechrau crio gan fod ganddi swigen o dan ei throed. Nid yw hi'n cael unrhyw gydymdeimlad gan Gags.

Pennod 4

Yn y prynhawn, gweithgaredd y grŵp yw canŵio. Mae Llion yn chwerthin am ben Dei yn ceisio ffitio i mewn i'w *wet-suit*. Mae Dei yn poeni na fydd yn ffitio i mewn i'r canŵ ac yn syrthio i'r dŵr wrth geisio mynd iddo. Mae Llion yn ei helpu i fynd i'r canŵ ac yn estyn ei rwyf iddo ar ôl iddo'i hanghofio ar y lan!

Mae Llion yn eithaf da am ganŵio. Dydy Nobi ddim yn cael cystal hwyl arni ac mae e'n dweud bod rhywbeth yn bod ar ei ganŵ. Yng nghanol y dŵr mae Donna'n dweud wrth Nobi a Llion am gyfnewid canŵs. Dydy Nobi ddim yn hapus ond mae Olwen yn dangos iddo sut mae posib gwneud. Mae Llion yn llwyddo i wneud hyn yn hawdd ond mae Nobi yn dangos bod arno ofn ac mae e'n cael ffit o banig. Mae'n syrthio i'r dŵr gan lwyddo i droi canŵ Gags a Tecs Pecs drosodd yr un pryd! Erbyn diwedd y dydd, roedd Llion yn mwynhau'r gweithgaredd ac yn cael andros o hwyl!

Pennod 5

Fore drannoeth mae'r grŵp yn mynd i ddringo. Cyn dechrau dringo, rhaid iddyn nhw wisgo'r offer cywir – yr harneisi a'r helmedau. Dydy Gwenan ddim eisiau dringo ond mae'r criw yn llwyddo i'w pherswadio hi yn y diwedd.

Rhaid i bawb weithio mewn parau – un yn dringo a'r llall yn gofalu am ddiogelwch y rhaff. Y tro cyntaf, mae Llion yn nerfus iawn wrth roi ei fywyd yn nwylo Donna sy'n gofalu am y rhaff. Yr ail dro mae'n darganfod ei fod yn eithaf da. Mae Olwen a Gags yn cael ras i weld pwy sy'n gallu cyrraedd copa'r graig yn gyntaf. Gan nad yw Nobi'n canolbwyntio mae bron ag achosi damwain i Gags gan achosi iddo ddisgyn hanner ffordd i lawr y graig. Mae Gags yn dod nôl i'r gwaelod yn saff, ac mae e bron â rhoi dwrn i Nobi am beidio â chanolbwyntio. Mae Donna'n mynd â'r ddau i gael gair bach i wella'u hymddygiad.

Mae Dei yn llwyddo i gyrraedd copa'r graig hefyd ac mae hynny'n llwyddiant personol iddo ond nid yw'n gallu dathlu yno. Mae e'n edrych i lawr o'r top ac yn cael braw oherwydd bod ofn uchder arno! Mae Gwenan hefyd yn cael trychineb enfawr – mae hi'n torri un o'i hewinedd!

Pennod 6

Ar ôl cinio, gweithgaredd y grŵp yw abseilio oddi ar graig sy'n llawer iawn uwch na'r graig ddringo. Yna, wrth gerdded i fyny llwybr i gopa'r graig, mae Donna'n sôn am ferch y Plasty a laddodd ei hun erstalwm drwy daflu ei hun oddi ar y graig yma.

Ar ôl gosod yr offer cywir a gwisgo'r helmedau mae Nobi'n penderfynu mai ef sydd am fynd gyntaf. Wrth weld pa mor bell yw'r gwaelod, mae ofn arno ond ar ôl dechrau mae'n mwynhau ei hun. Mae ar Gwenan ofn unwaith eto, ac mae hi'n tanio sigarét gyda'i dwylo crynedig ac yn gwrthod cymryd rhan. Mae Gags yn penderfynu mai ei dro ef ddylai fod nesaf, felly mae'n dechrau paratoi i fynd i lawr ond mae'n rhewi gan ofn. Mae'n rhaid i Donna ei dynnu yn ôl i'r top gan ei fod bron â chrio. Yna mae Gags yn pwdu ac yn penderfynu mynd yn ôl i'w gaban ond mae Tecs Pecs yn cyrraedd yng nghanol y ffrae rhwng Donna a Gags. Mae Gags yn grac bod Tecs Pecs yn gwybod ei fod wedi methu.

Tro Llion sydd nesaf ac mae wrth ei fodd yn gollwng ei hun i lawr yn gynt ac yn gynt. Mae'n gwerthfawrogi'r olygfa o'i gwmpas. Dei yw'r olaf i fynd, ac er bod arno ofn uchder mae'n llwyddo i gwblhau'r naid.

Gyda'r nos, mae staff y ganolfan yn diddanu'r disgyblion gyda sgetsys, ac yna mae pawb yn mynd i'w gwelyau erbyn 11 pm. Mae Dei'n hapus gyda'i hun – mae'n canu ar y pan! Mae Llion yn clywed sŵn poteli yn dod o'r drws nesaf ac yn dyfalu bod Gags a Nobi yn yfed alcohol.

Pennod 7

Pan mae Nobi a Gags yn dod i lawr i frecwast mae'n amlwg bod ganddyn nhw hangofyr ar ôl bod yn yfed y noson gynt. Dywed Dei wrth Llion fod Nobi a Gags wedi cael *"homar o ffrae"* a bod Tecs Pecs wedi gorfod dod i roi trefn arnyn nhw yn y diwedd gan eu bod nhw'n taro'i gilydd.

Gweithgareddau'r diwrnod hwn yw tasgau ymenyddol. Cyn cychwyn ar y gwaith grŵp mae'n rhaid i bawb eistedd mewn cylch a chwarae gêm. Y gêm yw gorffen brawddegau mae Donna yn eu dechrau sy'n dweud pa ran o'r cwrs maen nhw wedi ei fwynhau fwyaf a *"roeddwn i'n teimlo fel mynd adre pan …"*

Y frawddeg olaf mae'n rhaid iddyn nhw ei gorffen yw, *"Mi ges i'n helpu gan …"* ac mae Llion yn synnu wrth i Dei a Gwenan ei ddewis ef – am annog Dei i barhau i ddringo, ac am aros gyda Gwenan wrth gerdded i fyny'r mynydd a gadael iddi arwain. Mae Olwen

yn dewis Dei am ei helpu hi i gario ei chanŵ o'r llyn a Llion yn dewis Olwen am ei helpu i ddarllen y map ar ben y mynydd.

Mae Nobi a Gags yn cael trafferth i feddwl am rywun sydd wedi eu helpu nhw, ond mae Nobi'n cyfaddef bod Dei wedi ei helpu i fynd yn ôl i'w ganŵ ar ôl iddo ddisgyn i'r llyn. Mae Gags wedi pwdu ac yn meddwl bod y gêm yma'n wirion. Nid yw'n credu bod unrhyw un wedi ei helpu yn ystod y trip o gwbl.

Pennod 8

Mae Gwenan wedi cael llond bol ar ymddygiad plentynnaidd Gags ac yn ffraeo gydag ef ar ôl dod allan o'r cwt. Mae Gags yn cyfaddef nad yw'n teimlo'n dda y bore hwnnw oherwydd ei fod wedi cymysgu alcohol a chyffuriau y noson gynt.

Mae Donna'n eu harwain nhw at goeden sydd â chwiban yn hongian yn uchel ar ddarn o gortyn ar un o'i changhennau. Y dasg mae Donna yn ei rhoi iddyn nhw yw trio chwythu'r chwiban, ond heb gyffwrdd y goeden na chyffwrdd y chwiban gyda'u dwylo.

Yr ail dasg yw dringo i fyny craig 10 troedfedd o uchder, ond unwaith mae rhywun wedi cyrraedd y top does ganddyn nhw ddim hawl dod yn ôl i lawr eto nes bod pawb arall wedi cyrraedd y top. Mae pawb yn llwyddo i gyrraedd copa'r graig heblaw am Gags sy'n dal i fod ar y gwaelod. Mae Llion yn gwylltio achos does neb yn gwrando ar ei syniad ef. Mae Gags yn llwyddo i gyrraedd y top ac mae pawb yn falch ac wedi mwynhau. Mae Gags dal yn dawel ac yn ymddangos fel petai wedi pwdu am weddill y dydd.

Pennod 9

Dyma noson olaf y criw yn y ganolfan ac mae twmpath dawns a disgo wedi'u paratoi ar eu cyfer. Yn y twmpath mae Llion yn dawnsio gyda Donna a Gwenan, ond mae Gags yn sefyll wrth y drws yn pwdu ac yn gwrthod dawnsio gyda Gwenan.

Ar ôl y twmpath mae Gags a Nobi yn mynd i'r cwt adnoddau i nôl eu halcohol a'u cyffuriau. Mae Olwen a Gwenan yn yfed fodca y tu ôl i goeden ac mae'n amlwg bod y ddwy yn dechrau meddwi gan fod eu llygaid nhw'n sgleinio. Maen nhw'n siarad yn uwch ac yn giglan. Mae Gwenan yn dweud wrth Llion ac Olwen fod Gags wedi bod yn ymddwyn yn od a'i bod hi'n credu mai oherwydd ei fod yn poeni am ei ganlyniadau TGAU y mae hyn.

Ar ôl mynd yn ôl i mewn i'r neuadd ar gyfer y disgo mae Gwenan yn gofyn i Llion ddawnsio gyda hi. Maen nhw'n dawnsio'n agos iawn at ei gilydd, er bod Nobi'n gwylio.

Does dim golwg o Gags. Mae Gwenan yn gafael yn llaw Llion ac yn ei arwain o'r llawr dawnsio at y drws. Mewn pum munud, mae'r ddau yn snogio o dan goeden y tu allan ond mae Gwenan yn dechrau teimlo'n sâl ac mae'n chwydu ei swper o sosej, bîns a tships dros esgidiau Llion!

Ar ôl hynny, mae Gwenan yn credu ei bod wedi gweld Gags yn mynd y tu ôl i gwt sinc gyda merch arall gwallt melyn. Mae'n credu mai Donna yw hi, felly mae'n rhedeg yn ei sodlau uchel at y cwt ond nid oes golwg o Gags. Felly, mae Gwenan yn mynd yn ôl i'r disgo wedi gwylltio. Mae'n mynd yn syth at Donna i ofyn ble mae Gags, ond dydy hi ddim yn gwybod. Mae hi wedi bod yn siarad ag ef yn gynt am ei bod hi'n poeni amdano. Mae Gwenan yn dweud wrthi am sticio at ddynion ei hoedran ei hun.

Mae Llion, Gwenan ac Olwen yn mynd allan o'r disgo i chwilio am Gags ond dydyn nhw ddim yn dod o hyd iddo. Erbyn hyn mae Gwenan yn crio ac yn yfed mwy o fodca, felly mae Llion yn ei gadael. Mae Donna'n dod ato i ofyn a ydyn nhw wedi dod o hyd i Gags. Yna, mae Llion yn mynd i eistedd gyda Dei ac mae'n gorfod gwylio Tecs Pecs a Donna yn dawnsio'n llawer rhy agos i ganeuon araf.

Pennod 10

Amser brecwast fore drannoeth nid yw Gwenan yn edrych ar Llion o gwbl. Mae Nobi'n dod i mewn, yn amlwg wedi cael noson dda, ac yn gofyn a oes rhywun wedi gweld Gags. Mae Llion yn sylweddoli bod Gags ar goll a bod rhaid dweud wrth rywun. Mae'n dweud wrth Donna ac mae hi'n mynd i ddweud wrth bennaeth y ganolfan.

Mae gweithwyr y gwersyll yn mynd i chwilio am Gags ac mae Gwenan erbyn hyn yn beichio crio yn poeni amdano. Er bod Nobi a Llion eisiau helpu i chwilio mae Tecs Pecs a phennaeth y gwersyll yn dweud nad ydyn nhw'n cael mynd. Mae Tecs Pecs yn awgrymu bod pawb yn mynd i bacio pethau Gags rhag ofn ei fod wedi cael damwain ac y bydd yn rhaid mynd ag ef i'r ysbyty. Yna, mae'r canlyniadau TGAU yn cyrraedd drwy'r peiriant ffacs ac mae pawb yn mynd i'w derbyn yn eu tro.

Pan mae Llion yn dod allan o'r stafell mae'n gweld Donna'n edrych fel *zombie* ac mae hi'n gwthio heibio iddo ac yn mynd i mewn i'r swyddfa at Tecs Pecs. Mae'r ddau'n dod allan mewn ychydig ac mae Tecs Pecs yn torri'r newyddion drwg i'r criw eu bod nhw wedi dod o hyd i Gags a'i fod wedi marw. Daethon nhw o hyd i'w gorff yn ymyl y graig lle buon nhw'n abseilio, yn yr union le y daethon nhw o hyd i gorff merch y Plas oedd wedi'i lladd ei hun erstalwm. Mae Donna mewn sioc am mai hi ddaeth o hyd i'w gorff.

Yn y papur newydd maen nhw'n dweud mai marw trwy ddamwain wnaeth Gags. Roedd wedi cael dwy A a llawer o Bs yn ei TGAU. Wnaeth Gwenan ddim crio o gwbl yn yr angladd hyd nes y gwelodd hi'r arch. Criodd Nobi hefyd. Tad Olwen oedd y gweinidog ac fe ddywedodd rhieni Gags wrth fam Olwen eu bod nhw'n amau erstalwm ei fod yn poeni am ei arholiadau.

Mae Llion wedi penderfynu mynd yn ôl i'r ysgol i wneud Lefel A daearyddiaeth. Nid yw Nobi am fynd yn ôl – efallai y bydd yn mynd i weithio gyda'i dad yn y busnes adeiladu. Mae gan Gwenan gariad newydd o'r enw Jason erbyn hyn a dydy hi ddim wedi edrych ar Llion ers yr angladd. Mae Llion yn gariad i Olwen erbyn hyn – yn yr angladd fe wnaeth y ddau ddal dwylo, ac mae pawb wedi stopio galw Llion yn "Llinyn Trôns".

Fory bydd pawb yn mynd i fyny'r Wyddfa i weld y wawr yn torri fel ffarwel olaf i Gags. Syniad Nobi yw hyn. Ac maen nhw am blannu coeden yng nghae'r ysgol i gofio amdano.

9. Iaith ac arddull

Iaith anffurfiol
Gan fod y nofel yn cael ei hadrodd o safbwynt Llion mae naws ymsonol i'r ysgrifennu. Oherwydd hynny mae llawer o elfennau rydyn ni'n eu cysylltu â iaith anffurfiol yn dod yn amlwg yn y naratif, e.e. **iaith lafar, tafodiaith ogleddol a bratiaith**

Edrychwch ar y darn isod o Bennod 4:

> Allan â ni efo rhyw dopiau bach neilon a siacedi achub (oren eto) dros y cwbl a disgwyl am y genod. Roeddan nhw wedi newid mewn stafell arall. Pan ddaeth Donna allan, mi 'nath hyd yn oed Nobi 'neud rhyw sŵn bach fel ci wedi gweld homar o asgwrn jiwsi. A dw i'n siwr fod Tecs Pecs wedi clirio'i wddw mewn ffordd ryfedd. Roedd ei siwt hi'n dynn iawn, iawn, ac yn dangos siâp ei phen-ôl i'r eitha, a hei, dyna i chdi be oedd pen-ôl. Dyma Olwen allan wedyn, a'i choesau bach tewion yn edrych yn fyrrach fyth. Roedd siwt Gwenan yn rhy fawr iddi, ac roedd hi'n edrych braidd yn pathetic, ond ddeudodd neb ddim byd. Doedd na'm golwg cael tynnu'i choes arni.

Enghreifftiau o iaith lafar:	roeddan nhw mi 'nath 'neud eitha be
Enghreifftiau o dafodiaith ogleddol:	genod chdi homar
Enghreifftiau o fratiaith:	jiwsi pathetic

Mae defnyddio'r iaith anffurfiol yn addas yn y nofel gan mai o safbwynt bachgen 16 oed mae hi'n cael ei hysgrifennu. Mae'n adlewyrchu sut mae pobl yn eu harddegau yn

siarad drwy ddefnyddio iaith lafar a bratiaith ac yn lleoli'r cymeriadau yn ddaearyddol drwy ddefnyddio'r dafodiaith ogleddol.

Wrth gwrs, mae'r un peth yn wir yn y ddeialog. Yn aml yn y ddeialog mae'r iaith yn fwy anffurfiol eto gyda defnydd o iaith lafar, tafodiaith ogleddol a bratiaith.

> Trodd Donna at Gags. "Pwy helpodd chdi, Gags?"
> Edrychodd arni efo gwên sych. "Ti helpodd fi i mewn i'r canŵ yn de?"
> Nodiodd Donna. Roedd y gweddill ohonan ni wedi bod yn rhy brysur yn chwerthin ac yn trio llusgo Tec Pecs fel sach o datws 'nôl i mewn i'w ganŵ o.
> " 'Nath 'run o'r criw yma fy helpu i naddo?"
> "Ofynnaist ti am help o gwbl?"
> "Naddo."
> "Be am yr abseil? 'Nath rhywun gynnig gair o gyngor i chdi?"
> "Naddo, do'n i'm isio cyngor gan neb."
> "Oedd ganddyn nhw ofn dy helpu di tybed?"
> "Ella, dwn i'm. Be 'di'r ots? Dw i'm isio chwarae'r gêm yma ddim mwy, ocê? Mae o'n boring. C'mon, talu i ddysgu dringo a ballu wnes i, ddim i ista mewn sied yn malu cachu."
> "Mae 'na betha i'w dysgu fel hyn hefyd yn does?"
> "*Psychobabble,* rwtsh, mwydro. Ti'n dechrau swnio fel Oprah blydi Winfrey."
> Edrychodd Donna arno fo'n galed am dipyn, yna ar ei wats.
> "Ocê, ond dw i'n meddwl bod y gêm yna wedi bod yn werthfawr iawn, fy hun. Triwch gofio be mae rhai ohonoch chi wedi'i ddeud pan 'dach chi'n gwneud y tasgau ymenyddol 'ma. Mae tîm wastad yn gweithio'n well na chriw o unigolion, 'tydi?" Roedd hi'n edrych ar Gags. "'Tydi Gags?"
> "Y?"
> "Pan mae dy dîm ffwtbol di'n colli, diffyg pasio sy fel arfer ar fai yn de?"
> "Neu jest chwaraewyr crap."

Mae tensiwn rhwng Donna a Gags yn yr olygfa hon ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu mewn sawl ffordd.

Donna sy'n gofyn cwestiynau i Gags i geisio'i gael i ymuno yn y gêm ac i werthuso'i amser yn y ganolfan. Sylwch mai **brawddegau byrion** sydd gan Gags yn atebion iddi bob tro a bod hynny'n dangos ei agwedd ddiamynedd, y ffaith ei fod wedi pwdu ond hefyd bod ganddo rywbeth arall pwysicach ar ei feddwl.

Mae'r atebion byrion yn cyrraedd uchafbwynt wrth i Gags ffrwydro gyda Donna a bod yn feirniadol ohoni a'i dull o'u harwain drwy'r gwahanol dasgau. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith ei fod yn **rhegi** – "malu cachu", "Oprah blydi Winfrey" a "chwaraewyr crap". Mae'n dangos ei agwedd amharchus tuag ati a'r ffaith ei fod yn methu mynegi ei hun wrth i'w dymer ferwi.

Sylwch eto ar ddefnydd Gags o eiriau Saesneg – "boring" sy'n nodweddiadol o'r syniad ystrydebol o bobl ifanc yr un oedran ag ef ei hun.

Mae defnydd Bethan Gwanas o nodweddion arddull yn amlwg iawn yn y nofel. Fel arfer maen nhw'n rhai syml sy'n hawdd i'w deall ond sy'n creu argraff ar y darllenydd.

Mae'r enghreifftiau canlynol o nodweddion arddull yn effeithiol gan eu bod yn cyfleu nifer o bethau.

Cymhariaeth – cymharu dau beth gyda'i gilydd. Beth sy'n gwneud y ddau yn debyg i'w gilydd?

Tecs Pecs

> "Mae ganddo fo gorff fel tarw ar steroids, yn lympiau mawr yn y llefydd rhyfedda."

Mae tarw yn anifail cryf a chyhyrog. Felly mae corff Tecs Pecs yn gryf a chyhyrog ac yn dangos ei fod yn ddyn ffit gan ei fod yn athro ymarfer corff. Mae steroids yn gyffuriau sy'n cael eu camddefnyddio gan rai athletwyr neu rai sy'n codi pwysau er mwyn datblygu'r cyhyrau ymhellach ac rydyn ni'n cael yr argraff bod Llion yn genfigennus o bobl cryf oherwydd ei fod ef yn wan a thenau.

Dei Dwy Dunnall

> "Mae o'n anferth, fel rhyw blancmange mawr."

Math o bwdin yw blancmange sy'n debyg i jeli o ran ei strwythur. O osod blancmange ar blât fe fyddai'n crynu ac yn gwyro. Gan fod Dei yn fawr a thew o ran ei gorff, rydyn ni'n cael darlun o'r braster ar ei gorff yn ysgwyd ac yn dirgrynu wrth iddo deithio yn y bws mini.

Trosiad – galw un peth yn rhywbeth arall. Beth sy'n gwneud y ddau beth yn debyg i'w gilydd?

Wrth eistedd drws nesa i Dei ar y bws mini

> "Os cawn ni ddamwain, fydd 'na'm byd ar ôl ohona i, dim ond crempog goch o waed a gyts ..."

Gan fod Llion yn eistedd yn ymyl Dei yn y bws mini mae'n poeni beth fyddai'n digwydd iddo pe byddai damwain yn digwydd. Mae Dei mor fawr o'i gymharu â Llion sydd mor denau ac eiddil (mae Nobi'n eu galw yn Little & Large). Mae Llion yn rhagweld y byddai'n cael ei wasgu'n fflat fel crempog pe byddai Dei'n glanio arno mewn damwain. Rydyn ni i gyd yn gwybod sut siâp sydd ar grempog ond mae Llion yn rhagweld y byddai ei esgyrn a'i gnawd yr un mor fflat ac yn goch oherwydd gwaed.

Bwyd y ganolfan

> "Ond roedd y pwdin yn ocê, 'blaw bod 'na UFOs yn y cwstard."

Nid yw Llion yn canmol bwyd y ganolfan ac mae'n feirniadol o'r cwstard a gafodd i bwdin. Drwy ddweud bod "UFOs yn y cwstard" mae'n cyfleu bod lympiau ynddo, a'r

rheini'n lympiau eithaf mawr o ran maint. Dylai cwstard fod yn llyfn i gyd ond, yn amlwg, nid yw cogydd y ganolfan wedi llwyddo i greu'r pwdin perffaith. Ond wedi dweud hyn, mae Llion yn siwr o fod yn gorddweud ac yn gorliwio'r sefyllfa.

Idiom – defnyddio ymadrodd llafar i gyfleu sefyllfa neu deimlad.

Llion wrth sôn am ei lysenw

> "a pha hogan sy'n llawn llathen fyddai'n mynd allan efo boi efo enw fel 'na."

Mae'n teimlo trueni drosto'i hun yma gan fod ei dad wedi rhoi'r llysenw "Llinyn Trôns" iddo sy'n cyfeirio at y ffaith ei fod yn denau. Nid yw'n meddwl y bydd unrhyw ferch gall, sydd o gwmpas ei phethau, BYTH eisiau mynd allan gydag ef oherwydd y label a roddodd ei dad arno.

Gags ar ôl iddo fethu ag abseilio o ben y graig fawr

> "Mi drois i sbïo ar Gags, ond roedd o wedi llyncu mul go iawn."

Ystyr yr idiom llyncu mul yw bod rhywun wedi pwdu. Yn y fan hon, mae hyder Gags wedi cael ei niweidio gan ei fod wedi dangos ei ofn i weddill y criw. Mae'n eistedd yn ddigon pell o'r ymyl ac wedi mynd i'w gragen. Nid yw Gags yn hoffi ymddangos yn wan gan fod ganddo ei enw da fel capten y timau rygbi, pêl-droed a chriced i'w gadw.

Rhestru – pentyrru berfau, ansoddeiriau neu enwau.

Llion yn credu nad yw ei dad yn ei hoffi

> "Dw i'n rhy fyr, rhy denau, rhy wan a rhy ddiog at ei ddant o."

Mae Llion yn credu bod ei dad yn ffafrio ei frawd hŷn, Merfyn. Mae Merfyn yn dal, cyhyrog ac athletaidd ac yn cyferbynnu gyda Llion ei hun. Rhestru nodweddion ymddangosiad a phersonoliaeth Llion mae'r dyfyniad yma a dangos pa mor isel yw meddwl Llion ohono'i hun wrth restru'r ansoddeiriau negyddol.

Hiwmor – sylw crafog, doniolwch, coegni.

Cyn i Nobi a Llion gyfnewid canŵ

> "Ty'd ta, Llinyn Trôns. Ac os 'nei di rwbath o'i le, mi fyddi di'n canu soprano am weddill dy oes."

Mae'r defnydd o hiwmor yn dangos cymeriad Nobi. Mae Nobi'n gas a bygythiol tuag at Llion yn ystod y cwrs yn ogystal ag yn yr ysgol. Wrth fygwth Llion i ofalu ei fod yn cyflawni'r dasg o gyfnewid canŵ yn llwyddiannus mae'n dangos yr hyder sydd ganddo ynddo'i hun i fedru cwblhau'r her a osodwyd gan Donna. Mae ei fygythiad y bydd Llion yn "canu soprano" am weddill ei oes yn dangos mai bygythiad corfforol i wneud niwed i fan gwan Llion sydd ganddo, un a fyddai'n gwneud i Llion fod yn llai o ddyn na Nobi yn y pen draw.

Cwestiwn rhethregol – cwestiwn mae rhywun yn ei ofyn heb ddisgwyl cael ateb yn ôl

> Llion yn gweld fod yr enw Llinyn Trôns yn mynd i fod yn faich arno:-
> "... a pha hogan sy'n llawn llathen fyddai'n mynd allan efo boi efo enw fel 'na?"

Mae Llion yn gweld fod yr enw mae ei dad wedi'i roi arno yn ystod y ras wy ar lwy yn mynd i aros gydag e am byth. Mae e'n gweld ochr negyddol yr enw i'w fywyd carwriaethol ac yn tybio na fydd e byth yn cael cariad. Mae'n gofyn y cwestiwn gan y byddai'n hoffi cael cariad ond yn credu fod yr enw yn mynd i fod yn rhwystr iddo fedru datblygu perthynas â merch.

Ansoddair – gair sy'n disgrifio

> Wrth i Donna achub bywyd Gags wrth iddo ddringo wyneb y graig pan nad yw Nobi'n canolbwyntio:-
> "Roedd cledr ei llaw hi'n fflamgoch lle'r oedd traul y rhaff wedi'i llosgi hi."

Mae'r ansoddair fflamgoch yn disgrifio lliw cledr llaw Donna ar ôl iddi orfod cipio'r rhaff ddringo cyn i Gags syrthio i waelod y graig. Mae ffrithiant y rhaff wedi achosi dolur i law Donna gan ei throi'n lliw coch. Ond gyda ffrithiant y rhaff yn erbyn y croen mae wedi achosi gwres sy'n rhan o boen Donna. Rydyn ni'n cysylltu gwres gyda thân ac mae llaw Donna yn llosgi. Mae'r ansoddair felly'n cyfeirio at liw llaw Donna a'r poen mae hi'n ei deimlo.

Personoli – rhoi nodwedd person i wrthrych e.e. aelod o'r corff

> Wrth i Llion helpu Dei i fynd i mewn i'w ganŵ:-
> "Unwaith eto," medda fi, a 'nghefn yn sgrechian efo'r ymdrech.

Mae cefn Llion yn brifo wrth iddo geisio helpu Dei i ffitio i mewn i'w ganŵ. Pan mae rhywun mewn poen maen nhw'n gweiddi neu sgrechian. Wrth ddweud fod cefn Llion yn sgrechian mae'n cyfleu cymaint mae ei gefn yn brifo wrth wneud y gwaith corfforol yma gan gofio mai un tenau ac eithaf gwan yw Llion mewn gwirionedd.

Cyflythrennu – ail-adrodd yr un llythyren ar ddechrau geiriau sy'n agos at ei gilydd mewn brawddeg

> Wrth i Gags baratoi i wneud ei abseil:-
> "Yna mi **st**opiodd yn **st**ond."

Mae ail-adrodd y cytseiniaid caled "st" yn y frawddeg fer yma yn dangos pa mor gyflym mae Gags wedi colli ei hyder. Mae sŵn y cytseiniaid yn fyr ac ymosodol sy'n dangos pa mor gyflym mae'r newid yn ei gymeriad yn dod i'r amlwg. Mae rhythm y llinell yn awgrymu traed rhywun yn rhewi yn yr unfan i ddangos ofn Gags.

10. Esbonio dyfyniadau pwysig

1.

> Dwi'm isio mynd, fwy na chic yn fy nhin. Mi fasai'n well gen i roi 'mhen mewn llond bwced o falwod am awr. Mi fyddai bwyta brocoli drwy'r dydd bob dydd am weddill fy oes yn llai o uffern. Ond does gen i ddim dewis nac oes, mae Hitler wedi deud yn do?
>
> Dad ydi Hitler. A does 'na neb byth yn gallu newid ei feddwl o unwaith y bydd o wedi penderfynu ar rwbath. Mae Merfyn, fy mrawd mawr perffaith, chwe troedfedd, gwallt melyn, dim plorod, 'A' yn bob diawl o bob dim, 46 gôl tymor dwytha a record y 100 medr, yn gallu ei droi o weithiau ond does gen i ddim gobaith tortois yn Ras yr Wyddfa.

Mae'r dyfyniad hwn yn dangos agwedd negyddol Llion tuag at fynd ar y daith i'r ganolfan ar ddechrau'r nofel. Mae'n meddwl am wahanol sefyllfaoedd y byddai'n casáu cael ei roi ynddyn nhw (pen mewn bwced o falwod, bwyta brocoli) ac yn meddwl y byddai'n well ganddo wneud hynny i gyd na threulio tridiau gyda Tecs Pecs a gweddill Blwyddyn 11.

Rydyn ni'n gweld ei anhoffter o'i dad ei hun drwy ei alw'n "Hitler" a thrwy'r ffaith ei fod yn teimlo bod ei dad yn trin ei frawd, Merfyn, yn wahanol i'r ffordd mae'n ei drin ef. Mae'n genfigennus o'i frawd mawr a gwelir hyn yn y rhestr o rinweddau Merfyn yn y dyfyniad.

Rydyn ni hefyd yn gweld yr elfen o hiwmor sydd yng nghymeriad Llion wrth iddo deimlo ei fod yn cael cam. Mae'n gorliwio sefyllfaoedd ac yn ymateb yn or-ddramatig fel llawer o fechgyn o'i oedran.

2.

> "Helo, Donna ydw i, a fi fydd efo'r tîm yma am y penwythnos."
> "Be? Chi ydi'n instructor ni"? holodd Nobi, fel 'tase fo'm yn credu'r peth.
> "Chi?" holodd Gags wedyn. "Chi sy'n mynd i'n dysgu ni i ganŵio a dringo?"
> "Ia, pam? 'Dach chi'm yn edrych yn hapus iawn am y peth. Be sy?"
> Edrychodd Nobi a Gags ar ei gilydd am eiliad, ac roedd Nobi yn edrych fel 'tasai fo ar fin deud rhwbath, ond mi dorrodd Gags ar ei draws o.

> "Dim byd. Dim byd o gwbl. Jest synnu mai merch ydach chi."

Mae'r dyfyniad uchod yn dangos pa mor rhywiaethol yw agwedd Gags a Nobi tuag at Donna fel hyfforddwraig. Mae'r ddau yn rhan o'r timau rygbi a phêl-droed yn yr ysgol ac wedi arfer gyda dynion yn eu hyfforddi. O safbwynt y ddau ohonyn nhw, gwaith dynion yw arwain grwpiau mewn gweithgareddau awyr agored ac maen nhw'n genfigennus o'r grwpiau eraill sydd wedi cael dynion i'w harwain nhw.

Mae'r agwedd hon yn ailymddangos dro ar ôl tro yn ystod y nofel wrth i'r bechgyn feddwl eu bod nhw'n well na'r merched yn y grŵp e.e. "Genod yn rhy wan 'tydyn" (Nobi) ac wrth iddynt geisio herio penderfyniadau a chanllawiau Donna e.e. gwrthwynebu dewis Dei i arwain ar y mynydd a Gags yn gwrthod gwrando ar Donna pan mae eisiau gadael y graig fawr a mynd yn ôl i'r ganolfan ar ei ben ei hun.

Ond mae Donna'n llwyddo i brofi bod rhagfarn Nobi'n anghywir wrth annog Olwen i newid canŵ'n llwyddiannus ar y llyn oherwydd mae Nobi'n syrthio gan dynnu Gags a Tecs Pecs i'r dŵr gydag ef. Rydyn ni'n gweld agwedd yr un mor gystadleuol gan Olwen hefyd wrth iddi geisio cael ras gyda Gags i ddringo i ben y graig fach – "Typical, mentaliti tîm hoci a rygbi, isio curo pawb o hyd."

Mae gan Nobi a Gags agwedd gystadleuol oherwydd eu cysylltiad â chwaraeon ac mae hynny, yn anffodus, wedi arwain at eu hagwedd rywiaethol o feddwl bod bechgyn yn well na merched ym mhopeth corfforol.

3.

> "Sut mae'r biceps heddiw, Llinyn Trôns? O sori! 'Sgen ti ddim nac oes!" Mae o mor ddoniol. "Mi fyddi di fatha rhech heddiw'n byddi? Angen bôn braich i dynnu dy hun i fyny craig 'sti. Ond paid â phoeni, mi wna i dy ddal di pan ti'n disgyn – os na byddi di wedi hedfan i ffwrdd yn y gwynt yn de! Ha ha ha!"

Mae Nobi yn tynnu coes Llion drwy'r nofel am y ffaith ei fod yn wan a thenau. Rydyn ni'n gwybod bod Llion yn anhapus ynglŷn â'r ffordd mae'n edrych o'i gymharu gyda'i frawd mawr, Merfyn. Ond mae'n fwy anhapus am y llysenw "Llinyn Trôns" sydd wedi aros gydag ef ers yr ysgol gynradd a'r ras wy ar lwy. Ei dad roddodd y llysenw arno'n wreiddiol ond mae Nobi'n ei alw'n hynny yn yr ysgol a thrwy'r cyfnod maen nhw'n ei

dreulio yn y ganolfan gweithgareddau awyr agored.

Mae Nobi'n gymeriad sy'n hoff o fwlian pobl sy'n wahanol iddo ef – Dei am ei fod yn dew a Llion am ei fod yn denau a heb gyhyrau. Mae'n gwneud cyfeiriadau yn y dyfyniad uchod at y ffaith nad oes gan Llion gyhyrau yn ei freichiau ac na fydd gobaith ganddo i lwyddo yn y gweithgaredd dringo. Mae hefyd yn rhagweld y byddai Llion yn cael ei gario gyda'r gwynt pe byddai'n disgyn oherwydd ei fod mor ysgafn.

4.

> "Ers pryd rwyt ti a Dei yn gymaint o fêts?"
> Do'n i 'rioed wedi meddwl am Dei fatha mêt, ddim ffrind go iawn, jest – 'dwn i'm – boi tew, peniog sy yn yr un dosbarth â fi.
> "Tydan ni ddim felly," atebais.
> "Pwy ydy dy fêts di yn 'rysgol ta?" gofynnodd wedyn.
> "Neb arbennig, dw i'n eitha lecio 'nghwmni fy hun. Ers pryd wyt ti'n fêts efo Gwenan?"
> "Ysgol gynradd. Oedd hi'n ddel yr adeg hynny hefyd."
> "O?"
> "Ti'n cofio stori'r *Ugly Duckling*?"
> "Ydw."
> "O'n i wastad yn meddwl y byswn i'n tyfu i fyny i fod yn alarch, ond wnes i byth."
> "Mwy o chwadan ..." Roedd hynna wedi dod allan heb i mi feddwl. Mi frathais fy nhafod, ond roedd hi'n rhy hwyr.

Mae cyfeillgarwch Llion a Dei yn datblygu yn ystod y nofel – fel bachgen tew, peniog roedd Llion yn arfer meddwl am Dei. Ond oherwydd bod y ddau wedi helpu ei gilydd mewn gwahanol sefyllfaoedd yn y ganolfan – Dei yn helpu Llion pan oedd Gags a Nobi yn gwneud hwyl am ei ben a Llion yn helpu Dei wrth ganŵio ac wrth ddringo'r graig – maen nhw bellach yn fêts.

Yn y dyfyniad yma mae Olwen yn trafod ei chyfeillgarwch hi gyda Gwenan hefyd. Gwenan yw'r un sy wedi bod yn boblogaidd ers yr ysgol gynradd oherwydd ei bod hi'n ddel. Mae Olwen wedi bod yn byw yn ei chysgod hi ers blynyddoedd. Mae Olwen yn ymwybodol nad ydy hi'n ferch dlws ac wedi meddwl amdani ei hun fel yr Hwyaden Fach Hyll yn y chwedl. Fodd bynnag, roedd hi'n gobeithio'n dawel bach y byddai hi'n dod yn dlysach wrth iddi hi dyfu.

Mae Llion yn ymddangos yn ansensitif yn y dyfyniad yma gan ystyried bod Olwen yn datgelu cyfrinach. Rydyn ni'n deall bod Llion yn ffansïo Gwenan yn y rhan yma o'r nofel ac mae'n eironig ei fod yn mynd allan gydag Olwen erbyn diwedd y nofel.

5.

> "Ym ... mae gen i syniad," medda fi, ond 'nath neb wrando arna i; roeddan nhw i gyd yn rhy brysur yn cega dros eu syniadau nhw, oedd yn rhai hollol stiwpid.
> "Hei ... dw i'n gwbod be i 'neud," medda fi eto, mewn llais uwch.
> Mi glywodd Nobi fi, ond chymerodd o ddim sylw. Ro'n i'n dechrau berwi rŵan. Ocê, ella 'mod i'n anobeithiol mewn lot o bethau, ac yn waeth fyth mewn chwaraeon, a phob un ohonyn nhw'n gwbod hynny, ond dw i'n cael marciau go lew yn ffiseg, diolch yn fawr. Mi benderfynais i roi cynnig arall arni, a chodi'n llais yn uwch eto. "Be am i ni ... be 'tasai ni ... ylwch, dw i'n ..." ond doedd 'na affliw o neb hyd yn oed yn sbio arna i!
> Reit 'ta, ro'n i wedi gwylltio rwan. Ro'n i'n gallu teimlo gwallt fy mhen yn codi a 'nwylo'n mynd yn dynn. "Gwrandwch arna i'r bastads!"

Dyma ble mae aelodau'r grŵp yn sylweddoli bod Llion yn aelod pwysig o'u tîm. Ar ddechrau'r nofel roedd Llion yn gymeriad tawel nad oedd eisiau tynnu sylw ato ef ei hun. Y cwbl roedd Llion ei eisiau o'r daith oedd "mynd adre mewn un darn, heb 'neud gormod o prat ohonof fi'n hun". Ond mae Llion wedi datblygu hyder yn ystod y tridiau ac wedi darganfod bod pobl fel Dei a Gwenan yn gwerthfawrogi ei gyfraniad i'r gweithgareddau. Yn anffodus, mae aelodau eraill fel Nobi yn dal i'w anwybyddu.

Wrth i'r dyfyniad yma fynd yn ei flaen rydyn ni'n gweld bod Llion yn colli ei limpyn. Collodd ei dymer ar y noson gyntaf hefyd ar ôl i Nobi a Gags roi ei ben i lawr y tŷ bach. Ffrwydrodd Llion a thorri sêt y toiled a thaflu papur tŷ bach dros bob man. Oherwydd bod pawb yn anwybyddu ei gynigion ar sut i gyrraedd pen y graig 10 troedfedd mae'n gorfod gweiddi a rhegi i gael sylw ei gyd-aelodau yn y tîm.

Rydyn ni'n gweld bod Llion wedi magu digon o hyder i fynnu bod gweddill y criw yn gwrando arno, yn hytrach na'i anwybyddu fel maen nhw wedi'i wneud yn yr ysgol ers pum mlynedd.

11. Cwestiynau arholiad

Darn Ymarfer 1

"Mae 'na rwbath yn bod ar y blydi canŵ yma, Donna!"
"Sori? Glywes i rywun yn rhegi rŵan?"
Tawelwch.
"Do. Sori. Ond yli, mae 'na rwbath yn bod ar hwn, go iawn rŵan, mae'r *steering* wedi cocio fyny neu rwbath."
Gwenodd Donna.
"0cê ta, oes 'na rywun yn fodlon newid canŵ efo Nobi?"
Tawelwch eto. Roedd hi'n hollol amlwg fod 'na'm byd o'i le ar ganŵ Nobi, ac y bysai'r un peth yn union yn digwydd iddo fo mewn unrhyw ganŵ, ac y bysai hynna'n ei wylltio'n waeth. Felly mi wnes i nodio 'mhen.
"Dim ots gen i," meddwn.
"lawn!" meddai Donna. "Pawb i rafftio i fyny o gwmpas Nobi 'ta!"

Felly dyma ni i gyd yn canŵio ato fo a gneud math o rafft, efo'r canŵs i gyd wrth ochr ei gilydd yn wynebu'r un ffordd, a'r padls dros flaen y cychod. Padlodd Donna i'n hwynebu ni.
"Pawb i afael yn y canŵs bob ochr i chi."
Rhegodd Nobi. Roedd o drws nesa i Dei, a doedd na'm llawer o le i roi ei law rhwng bloneg Dei a rhimyn y canŵ. Ro'n i rhwng Gags a Tecs, yn frechdan rhwng y Pecs.
"lawn," meddai Donna. "Nobi a Llion, newidiwch lefydd."
"Y!" ebychodd Nobi. "No wê!"
"Mae o'n berffaith ddiogel," gwenodd Donna
"Ty'd, dos di ar hyd blaen y canŵs, ac mi fedar Llion fynd rownd y cefn."
Edrychodd Nobi a finnau ar ein gilydd. Oedd hi'n cymryd y mic 'ta be?
"Dach chi'm yn fy nghredu i?" holodd Donna.
Nac oeddan. Roedd hyd yn oed Tecs wedi cau ei geg ac yn edrych reit bryderus.
"Olwen? Wnei di godi ar dy draed plîs?"
Oedodd Olwen am 'chydig, yna troi at Gwenan.
"Gafaela'n dynn, ocê? A chithau, syr."

31 Ufuddhaodd Gwenan a Tecs yn ddi-gwestiwn, a dyma Olwen yn codi ar ei
32 thraed yn araf a braidd yn sigledig, ond mi lwyddodd.
33 "Hawdd tydi?" meddai Donna. "A rŵan, dos rownd y canŵs i gyd ac yn ôl i
34 dy le."
35 Gwenodd Olwen, a chyn pen dim, roedd hi'n cerdded dros flaen canŵ Mr
36 Pecs a finnau ac yn mynd rownd gan chwerthin. Ella bod ganddi goesau
37 hyll, ond mae ganddi gyts. Pan gamodd hi ar flaen canŵ Dei, mi waeddodd
38 hwnnw nerth ei ben. Roedd o reit isel yn y dŵr fel roedd hi, ond efo
39 pwysau ychwanegol Olwen, roedd ei gocpit o dan yr wyneb! Ond cyn pen
40 dim, roedd Olwen yn ôl yn ei chanŵ. Mi gododd Dei ei ddwylo i glapio nes
41 i Nobi roi bloedd arno fo.
42 "Paid â gollwng y blydi canŵ, y pen rwdan!"
43 "0 ia, mae'n ddrwg gen i."
44 "Wel?" gwenodd Donna. "Mae 'na ferch yn gallu ei 'neud o ... "
45 "Ocê, ocê ..." chwyrnodd Nobi. "Ty'd 'ta, Llinyn Trôns. Ac os 'nei di rwbath
46 o'i le, mi fyddi di'n canu soprano am weddill dy oes."

a) Pwy yw Donna?
Pam mae hi'n bwysig i blot y nofel? (3)

b) Mae Nobi wedi bod yn gas gyda Llion ar **ddau** achlysur gwahanol yn gynt yn y nofel. Beth ddigwyddodd? (3)

c) Disgrifiwch olygfa arall ble mae pethau'n mynd o chwith i un o'r cymeriadau.

Pam mae'r olygfa honno'n bwysig?
Peidiwch â sôn am y darn sydd wedi'i ddyfynnu eisoes o'r nofel (llinellau 1-46).
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. (10)

ch) Sut gymeriad yw Nobi?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. (6)

d) i. Edrychwch ar linell 18 yn y darn.
"Ro'n i rhwng Gags a Tecs, yn frechdan rhwng y Pecs."
Dywedwch pam mae'r darn hwn yn effeithiol. (2)

ii. Edrychwch ar linell 37 yn y darn.
"Pan gamodd hi ar flaen canŵ Dei, mi waeddodd hwnnw nerth ei ben."
Dywedwch pam mae'r darn hwn yn effeithiol. (2)

iii. Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
Dyfynnwch y nodwedd
Enwch y nodwedd
Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. (4)

dd) Dychmygwch mai chi yw Gwenan.
Ysgrifennwch eich dyddiadur cyn mynd i'r gwely ar noson y disgo.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. (10)

Darn Ymarfer 2

O'r diwedd, roedd Nobi wedi cyrraedd y gwaelod a'r rhaff ar gael eto. "Pwy sy nesa?" holodd Donna. Mi wnes i gychwyn amdani, ond ges i 'ngwthio i'r ochr eto fyth. Gags. Ddeudis i'm byd.

"Bryd i hwnna ddysgu tipyn o fanars," meddai Olwen, a galw ar Gags. "Hei! Ti'm 'di clywed am *ladies first?"*

"Ti ar ei hôl hi," atebodd yn swta. " 'Dan ni yn y mileniwm newydd – pawb yn gyfartal ers blynyddoedd – a phan mae pethau'n mynd yn tyff, mae'r tyff yn mynd gynta." Ac mi wenodd ar Donna wrth iddi sgriwio ei garabiner yn dynn.

"Be gentle with me baby."

Rhowlio'i llygaid wnaeth Donna, ond roedd hi'n gwenu. Camodd Gags yn ei ôl yn gwbl hyderus, nes cyrraedd yr ochr a sbïo i lawr y tu ôl iddo fo. Yna mi stopiodd yn stond – roedd yn rhaid iddo fo, neu mi fysai wedi disgyn, ond roedd y stopio yma'n wahanol. Mi rewodd rywsut a throi yn welw iawn, iawn.

"Ti'n iawn?" gofynnodd Donna.

Ddeudodd o'm byd, jest dechrau crynu.

"Jest pwysa'n ôl, mi fyddi di'n iawn," meddai hi wedyn yn dawel, ond yn bendant.

Mi sbïodd arni a dechrau symud yn ôl, filimedr ar y tro, heb dynnu ei lygaid oddi arni. Roedd ei sodlau dros yr ochr rŵan.

"Dyna chdi, stopia fan 'na, a jest pwysa'n ôl a chadw dy goesau'n syth."

Yn boenus o araf, mi bwysodd yn ôl fymryn. Ond yn sydyn, mi blygodd ei goesau, ac mi lithrodd ei draed oddi tano fo nes roedd o fel 'tasai fo'n cwrcwd yn erbyn y graig. Mi ollyngodd y rhaff yn llwyr a dechrau crafangu'r cerrig mân wrth draed Donna. Roedd o'n gwichian, rhyw sŵn od fel anifail wedi dychryn. Mi freciodd Donna'n galed ar ei ffigur wyth a chamu'n ôl fel ei bod hi'n ei dynnu'n ôl i fyny. Roeddan ni i gyd yn fud, yn methu credu bod Gags, yr hogyn mawr, cry, athletaidd a mor siwr ohono'i hun, yn griddfan ar ei bedwar, jest â beichio crio.

a) Pwy yw Gags?
Pam mae'n bwysig yn y nofel? (3)

b) Pam mae'r gweithgaredd abseilio yn bwysig i blot y nofel? (3)

c) Disgrifiwch olygfa arall o'r nofel sy'n dangos cymeriad yn cael ofn.
Pam mae'r olygfa honno'n bwysig?
Peidiwch â sôn am y darn sydd wedi'i ddyfynnu eisioes o'r nofel (llinellau 1-30).
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. (10)

ch) Sut gymeriad yw Llion?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. (6)

d) i. Edrychwch ar linell 3 yn y darn.
"Gags. Ddeudis i'm byd."
Dywedwch pam mae'r darn hwn yn effeithiol. (2)

ii. Edrychwch ar linell 26 yn y darn.
"Roedd o'n gwichian, rhyw sŵn od fel anifail wedi dychryn."
Dywedwch pam mae'r darn hwn yn effeithiol. (2)

iii. Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
Dyfynnwch y nodwedd
Enwch y nodwedd
Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. (4)

dd) Dychmygwch mai chi yw Dei.
Ysgrifennwch lythyr gan Dei at Nobi ar ddiwedd y nofel.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. (10)

Darn Ymarfer 3

Roedd 'na olwg y diawl ar Nobi a Gags pan ddaethon nhw i lawr yn hwyr i frecwast, a'u hwynebau'n llwyd a'u llygaid yn graciau coch i gyd.
"Hangofyrs," meddai Dei yn dawel. "Roeddan nhw'n rhacs neithiwr. Gysgest ti drwy'r cwbwl yn do?"
"Am wn i," meddwn i efo llond ceg o gornfflêcs. "Golles i rwbath?"
"Do! Homar o ffrae. Gags yn galw Nobi yn bob dim dan haul, wedyn y ddau yn ffustio'i gilydd, a Tecs Pecs yn dod i mewn a rhoi llond pen go iawn iddyn nhw. Mae o wedi bygwth deud wrth y Prifathro ar ôl mynd 'nôl."
"Oedd hi'n dipyn o sioe 'lly?"
"Gwell o beth uffarn na Pobol y Cwm – dw i methu dallt sut gwnest ti gysgu drwyddo fo i gyd."
Na finnau! Damia, mi fyswn i wedi bod wrth fy modd yn clywed sioe fel 'na! Ond mae'n rhaid ei fod o wedi brifo Tecs jest cymaint â'r hogiau, gorfod deud y drefn wrth ei ddau *wonderboy*. Mi edrychais i draw at fwrdd yr hyfforddwyr, a fan 'no roedd Tecs yn edrych yn fwy blin nag arfer, nes i Donna estyn paned iddo fo. Wedyn aeth o'n fwy seimllyd nag arfer. Gas gen i weld bobol mewn oed yn trio fflyrtio.

Roedd Gags a Nobi wedi eistedd efo'r hogiau eraill, ond ddim yn edrych fel 'tasan nhw lawer o awydd yr wy a'r bara saim o'u blaenau nhw. Bechod, oedd o'n lyfli, efo wy melyn yn rhedeg jest fel dwi'n licio fo, fel afon, ac yn cymysgu'n seicadelig efo'r sos coch, fel clawr record *vinyl* o'r chwedegau. Es i'n ôl am blatiad arall, ac mi sbïodd Dei yn hurt arna i!

"Tydi hyn ddim yn deg! Sut rwyt ti mor denau a chdithau'n bwyta cymaint?"
"Fydda i ddim fel arfer."
"Pam ti'n gneud rŵan 'ta.
"Dwn i'm. Isio bod yn hogyn mawr cry fatha chdi!"
Ac mi wenais arno fo cyn stwffio llond fforc arall i 'ngheg, a bron i mi dagu arno fo pan ges i swadan dros fy mhen gan Dei.
"Dyna ti'n 'gael am fod yn coci efo hogyn mawr Trônsyn."
Aw, mae o'n blincin cry hefyd. Dw i'n dechrau licio Dei.

a) Pwy yw Llinyn Trôns ac o ble daeth yr enw? (3)

b) Sut berthynas sydd gan Llion a Dei yn y nofel? (3)

c) Pam mae Gags a Nobi'n ffraeo? Disgrifiwch un o'r golygfeydd sy'n dangos hyn.
Pam mae'r olygfa honno'n bwysig?
Peidiwch â sôn am y darn sydd wedi'i ddyfynnu eisoes o'r nofel (llinellau 1-32).
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. (10)

ch) Sut gymeriad yw Dei?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. (6)

d) i. Edrychwch ar linell 17 yn y darn.
"Wedyn aeth o'n fwy seimllyd nag arfer."
Dywedwch pam mae'r darn hwn yn effeithiol. (2)

ii. Edrychwch ar linell 15 yn y darn.
"... gorfod dweud y drefn wrth ei ddau *wonderboy*."
Dywedwch pam mae'r darn hwn yn effeithiol. (2)

iii. Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
Dyfynnwch y nodwedd
Enwch y nodwedd
Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. (4)

dd) Dychmygwch mai chi yw Donna.
Ysgrifennwch ymson Donna rhwng y Twmpath a'r Disgo.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. (10)

Darn Ymarfer 4

Pan es i lawr i frecwast y bore wedyn, roedd llygaid pawb fel marblis. Rhai wedi cael partis drwy'r nos yn rhywle mae'n amlwg. Typical, dw i wastad yn colli'r hwyl i gyd. A phan ddaeth Gwenan i mewn, 'nath hi'm sbio arna i. Fflipin hec, doedd hi 'rioed yn fy meio i? Daeth Nobi draw at Dei a finnau, efo powlan o gornfflêcs a gwallt fel crib iâr.

"S'ma'i hogiau? Noson dda doedd?" Roedd 'na wên ryfedd ar ei wyneb o; roedd o'n amlwg wedi cael amser da efo rhyw greadures ddall efo IQ dafad. "Dach chi 'di gweld Gags?"

"Naddo," atebodd Dei efo llond ceg o frechdan wy.

"Y diawl drwg heb gysgu yn ei wely ei hun neithiwr!" chwarddodd Nobi. Yna trodd at fwrdd Gwenan ac Olwen a gweiddi: "Hei! Lle mae Gags gen ti? Dal i chwyrnu mwn! Gobeithio fod 'na well hwyl arno fo na neithiwr – roedd o'n uffernol o flin pan welais i o ddwytha. Ond ti'n gwbod sut i'w drin o'n well na fi 'dwyt?"

Edrychodd Gwenan arno'n fud am eiliad, a dyma ei gwefus isa hi'n dechrau crynu, ac mi gododd fel mellten a rhedeg allan o'r stafell. Edrychodd Nobi'n hurt arni'n gadael. "Be uffar sy'n bod arni hi?"

Daeth Olwen draw aton ni, a'i llygaid ar dân.

"Fedri di'm cau dy hen geg, Nobi? Rhwbio halen i'r briw fel'na."

Crychodd Nobi ei dalcen. "Pa friw?"

Ochneidiodd Olwen a cheisio egluro. "Doedd o'm efo Gwenan neithiwr."

"O, dwi'n gweld. Lle mae o 'ta?" holodd Nobi'n swta. 'Doedd o'm efo ni. Welais i mono fo o gwbl ar ôl i'r disgo ddechrau."

Cododd Dei ar ei draed a sganio'r stafell. "Wela i 'ddim fod neb arall ar goll."

"'Sai well i ni sôn wrth rywun?" holais i gan ddechrau teimlo'n annifyr.

"Na, 'sdim isio gneud rhyw hen lol nac oes?" meddai Nobi. "Mi ddaw yn ei ôl toc, efo uffar o stori fawr. Wedi bachu, garantîd i ti. Crinc lwcus fuodd o 'rioed."

a) Pwy yw Olwen a pham mae hi'n bwysig i blot y nofel? (3)

b) Pam nad oedd Gwenan yn gallu edrych ar Llion amser brecwast y bore hwnnw? (3)

c) Mae Gags a Gwenan wedi ffraeo ar fwy nag un achlysur yn y nofel.
Manylwch ar un cweryl.
Pam mae'r olygfa honno'n bwysig?
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. (10)

ch) Sut gymeriad yw Gwenan?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. (6)

d) i. Edrychwch ar linell 4 yn y darn.
"Daeth Nobi draw at Dei a finnau, efo powlen o gornfflêcs a gwallt fel crib iâr."
Dywedwch pam mae'r darn hwn yn effeithiol. (2)

ii. Edrychwch ar linell 18 yn y darn.
"Daeth Olwen draw aton ni, a'i llygaid ar dân."
Dywedwch pam mae'r darn hwn yn effeithiol. (2)

iii. Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
Dyfynnwch y nodwedd
Enwch y nodwedd
Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. (4)

dd) Dychmygwch mai chi yw Llion.
Ysgrifennwch ymson Llion wrth dderbyn ei ganlyniadau TGAU.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. (10)

12. Atebion y Cwestiynau arholiad

Darn Ymarfer 1

a) Pwy?
- Hyfforddwraig y criw yn y ganolfan.

Pam?
- Arwain y criw i wynebu eu hofnau a magu hyder.
- Hi sy'n dod o hyd i gorff Gags ar waelod y graig.
- Bechgyn i gyd (a Tecs Pecs) yn ei ffansïo hi.

b)
- Rhoi pen Llion i lawr y tŷ bach ar y noson gyntaf.
- Rhoi dŵr yng ngwely Llion yn ystod y nos fel bod Llion yn credu ei fod wedi gwlychu'r gwely yn y bore.

c) Gallwch sôn am un o'r canlynol:
- Dei yn dringo'r graig
- Gags yn ceisio abseilio
- Nobi yn gollwng rhaff Gags ar ddamwain

neu unrhyw ddigwyddiad perthnasol arall.

ch) Bydd angen nodi NODWEDD a rhoi TYSTIOLAETH o'r nofel.

Gallwch chi sôn am bwyntiau fel:

Annifyr	Hoff o bigo ar bobl sy'n llai cyhyrog neu'n fyrrach nag ef ei hun.
Sbeitlyd	Gwneud pethau cas i Llion a dweud pethau cas wrtho.
Twp	Mae'n dibynnu ar Gags i'w arwain drwy'r amser.
Ofnus	Mae'n dangos i bawb nad yw'n gymaint o ddyn drwy fod ag ofn disgyn i ddŵr y llyn.
Ffyddlon	Mae'n ffrind ffyddlon i Gags ac yn casáu os ydyn nhw wedi ffraeo am unrhyw reswm.

neu / ac unrhyw nodweddion eraill sy'n berthnasol.

d) i. Trosiad – Mae Llion yn cael ei wasgu rhwng dau sydd â chyhyrau. Mae Llion yn debyg i'r llenwad sydd rhwng dwy dafell o fara.

ii. Idiom – Mae'n dangos bod Dei yn dychryn wrth i Olwen gamu ar flaen ei ganŵ. Mae'n fachgen tew ac wedi cael trafferth mynd i mewn i'r canŵ ac felly mae'n poeni ei fod yn mynd i foddi. Mae'n gweiddi yn uchel iawn.

iii. Rhaid i chi nodi'r nodwedd arddull yn gywir, dyfynnu'n gywir a thrafod pam y mae'n effeithiol.

dd) Enghraifft

Nos Fercher y 23ain o Awst

Dw i wedi meddwi! Ar ôl bod yn yfed fodca gydag Olwen a Llion y tu ôl i'r goeden. Ond yn waeth na hynny, dw i wedi bod yn sâl dros esgidiau Llion. Fe wnes i chwydu fy swper o sosej, bîns a tships drosto fe.

Roedden ni wedi bod yn snogio cyn hynny, y tu allan i'r disgo. Dwi'n gwybod fy mod i i fod yn gariad i Gags ond mae e wedi bod yn mynd ar fy nerfau i yn ddiweddar. Mae Llion wedi bod yn garedig i fi yn ystod y cwrs – gadael i fi arwain wrth ddringo'r mynydd a fy helpu i pan mae Gags yn gas.

Beth sy'n bod ar Gags? Mae e wedi bod yn ymddwyn yn od yn ystod y dyddiau diwethaf. Ydy e'n poeni am ei ganlyniadau TGAU yfory? Mae e wedi bod yn gweithio'n galed tuag at yr arholiadau. Mae e'n siwr o wneud yn dda. Yn llawer gwell na fi – rydw i'n dwp ac yn methu ag ateb cwestiynau ar raglenni cwis ar y teledu fel *Catchphrase* ac *I want to be a Millionaire*. Ond rydw i'n gwybod un peth – does ganddo fe ddim hawl dweud wrtha i beth i'w wneud.

Mae e wedi dangos ei fod e'n wan wrth fethu abseilio a phwdu yn y gweithgaredd adeiladu tîm yn y goedwig. Capten y tîm rygbi, pêl-droed a chriced yn methu gwneud rhywbeth! Ond mae Llion wedi llwyddo gyda phob peth mae e wedi'i wneud. Mae Donna hyd yn oed wedi awgrymu y dylai e ddod nôl i weithio yma fel swog rywbryd eto yn y dyfodol.

Dydw i ddim yn hoffi Donna o gwbl. Mae hi'n fflyrtio gyda Gags – a Tecs Pecs! Dw i'n siwr fy mod i wedi ei gweld hi a Gags yn mynd y tu ôl i'r cwt adnoddau gyda'i gilydd

heno. Fe es i ati yn y disgo wedyn a dweud wrthi y dylai hi sticio at ddynion ei hoed ei hun! Byddwn i wedi ei tharo hi oni bai bod gen i ofn torri ewin arall.

Rydw i'n ypset iawn ar hyn o bryd. Rydw i'n difaru snogio Llion a dydy Gags ddim wedi dod i fy ngweld i cyn i fi fynd i'r gwely. Mae Olwen wedi bod yn trio rhoi cyngor i fi ar ddynion – beth mae hi'n ei wybod? Dydy hi erioed wedi cael cariad!

O wel, gwell i fi fynd i gysgu nawr.

Darn Ymarfer 2

a) Pwy?
- Gareth
- Cariad Gwenan
- Arweinydd y criw / cyd-ddisgybl i Llion yn yr ysgol
- Capten y timau rygbi, pêl-droed a chriced

Pam?
- Mae'n mynd ar goll / marw ar ddiwedd y nofel
- Dadlau gyda Gwenan
- Ffrind gorau i Nobi
- Bwlio Llion

b)
- Clywed y stori am ferch y plas yn lladd ei hun
- Gags yn dangos ei ofn wrth abseilio
- Awgrymu beth sy'n mynd i ddigwydd i Gags ar ddiwedd y nofel
- Dangos cymeriad ystyfnig Gags wrth ddadlau gyda Donna.

c) Gallwch sôn am un o'r canlynol:
- Dei yn methu â dod i lawr y rhaff ar ôl dringo i ben y graig
- Nobi'n syrthio i mewn i'r llyn wrth newid canŵ
- Donna pan mae'n sylweddoli fod Gags ar goll

neu unrhyw ddigwyddiad perthnasol arall.

ch) Bydd angen nodi NODWEDD a rhoi TYSTIOLAETH o'r nofel.

Gallwch chi sôn am bwyntiau fel:

Ansicr (ar ddechrau'r nofel)	Cymeriad tawel sy'n cadw'i hun iddo'i hun ac yn hoff o chwarae ar ei gyfrifiadur.
Cuddio'i wir deimladau	Ffrwydro yn ddirgel ar ôl i Nobi a Gags roi ei ben i lawr y tŷ bach.
Dideimlad	Wrth ddweud wrth Olwen ei bod hi'n debyg i hwyaden.
Amyneddgar a chyfeillgar	Wrth annog ei ffrindiau mewn gwahanol weithgareddau.
Hyderus (erbyn diwedd y nofel)	Llwyddo mewn tasgau a gweithgareddau, bodlon rhoi cynnig ar bopeth.

neu / ac unrhyw nodweddion eraill sy'n berthnasol.

d) i. Brawddegau Byrion – er mwyn dangos casineb Llion tuag at Gags am fod Gags yn meddwl llawer o'i hun. Dangos hefyd bod gan Llion ofn Gags.

ii. Cymhariaeth – dangos ofn Gags wrth abseilio. Mae mochyn yn anifail sy'n gwichian pan mae'n teimlo ei fod mewn perygl neu dan straen. Mae'n annodweddiadol o'i gymeriad ac yn dangos bod y sŵn mae e'n ei gynhyrchu yn annaturiol.

iii. Rhaid i chi nodi'r nodwedd arddull yn gywir, dyfynnu'n gywir a thrafod pam y mae'n effeithiol.

dd) Enghraifft

15 Heol y Coed,
Llanwnda,
Caernarfon.

20fed o Hydref

Annwyl Nobi,

Sut wyt ti? Dydw i ddim wedi cael cyfle i siarad efo ti ers i ni fynd i fyny'r Wyddfa gyda'n gilydd i gofio am Gags. Mae'n wir ddrwg gen i fod Gags wedi marw. Rydw i'n

gwybod dy fod ti ac yntau yn ffrindiau gorau er eich bod chi wedi ffraeo llawer yn ystod y daith i'r ganolfan awyr agored. Roeddet ti'n ei addoli e ac yn ei edmygu am ei fod yn gapten y tîm rygbi, pêl-droed a chriced.

Roeddech chi'n gwneud popeth gyda'ch gilydd – fy mwlian i a Llion yn un peth. Gobeithio dy fod ti'n sylweddoli pa mor gas oeddech chi gyda Llion yn rhoi ei ben i lawr y tŷ bach ac arllwys jwg o ddŵr dros ei wely fel ei fod yn meddwl ei fod wedi gwlychu'r gwely. Dydw i chwaith ddim yn hoffi cael fy ngalw'n Ffati er fy mod i'n gwybod fy mod i'n dew a bod pawb yn fy ngalw i'n Dei Dwy Dunnall tu ôl i fy nghefn i. Ond rydw i'n maddau i ti am hynny.

Mae llawer o bethau da rwy'n eu cofio o'r trip hwnnw. Ti'n rhedeg ar ôl y papur Mars ar y mynydd! A dw i'n cofio dy weld di'n mwynhau dawnsio yn y twmpath ac yn joio ar y noson olaf. Dw i'n cofio chwerthin am dy ben di hefyd wrth i ti syrthio i mewn i'r llyn a thynnu Gags a Tecs Pecs i mewn i'r dŵr hefyd!

Ond dw i hefyd yn dy gofio di a Gags yn cael andros o ffrae gan Tecs Pecs am ymladd yn ystod y nos – y noson roeddech chi'n yfed alcohol ac ysmygu cyffuriau. Roedd Gags yn grac gyda ti am beidio â chanolbwyntio wrth iddo fe drio dod i lawr oddi ar y graig. Buodd bron iddo fe gael dolur. Lwcus fod Donna wedi neidio i dy helpu di. Ond fe losgodd hi ei llaw ar y rhaff oherwydd y ffrithiant.

Rydw i'n cofio'r bore creulon olaf yn y ganolfan. Ti'n dechrau'r bore yn tynnu coes Gwenan fod Gags heb gysgu yn ei wely ei hun y noson cynt. Roeddet ti'n meddwl ei fod e wedi aros gyda hi. Roeddet ti'n anghywir. Yn raddol, daethon ni i sylweddoli ei fod e ar goll. Wna i byth anghofio yr olwg oedd ar wyneb Donna pan ddaeth hi'n ôl ar ôl dod o hyd i gorff Gags. Roedd hi fel zombie. Oeddet ti'n gwybod ei fod e'n poeni am ei ganlyniadau?

Sut mae'n mynd gyda'r gwaith adeiladu? Wyt ti'n mwynhau gweithio i gwmni dy deulu? Mae angen i ti ddod am dro i'n gweld ni i gyd yn yr ysgol – Llion ac Olwen (sy'n gariadon erbyn hyn), Gwenan (sydd yn mynd allan gyda Jason nawr) a finnau. Gei di weld y goeden rydyn ni wedi'i phlannu yng ngardd yr ysgol i gofio am Gags.

Gobeithio y gwela i di'n fuan

Dei

Darn Ymarfer 3

a) Pwy?
- Llion Jones
- Prif gymeriad y nofel
- Bachgen 16 oed

Pam?
- Ei dad wedi'i enwi wrth iddo ddod yn olaf mewn ras wy ar lwy yn yr ysgol gynradd
- Mae'n dal a thenau fel darn o elastig – llinyn trôns

b)
- Ar y dechrau dim ond bachgen yn yr un dosbarth â Llion yw Dei
- Yn y gwersyll mae Dei yn cadw cefn Llion pan mae Nobi a Gags yn ei fwlian
- Mae Llion yn annog a chefnogi Dei wrth iddo ddringo'r graig ac yn ei helpu pan mae'n gadael padl ei ganŵ ar y lan
- Dod yn ffrindiau yn ystod y cwrs gan eu bod yn rhannu caban

c) Gallwch sôn am un o'r canlynol:
- wrth i Nobi syrthio i'r llyn a thynnu Gags i'r dŵr hefyd
- pan nad yw Nobi'n canolbwyntio wrth i Gags ddringo'r graig

neu unrhyw ddigwyddiad perthnasol arall.

ch) Bydd angen nodi NODWEDD a rhoi TYSTIOLAETH o'r nofel.

Gallwch chi sôn am bwyntiau fel:

Gordew	Mae'n hoff o fwyta siocledi a chreision
Cryf a phenderfynol	Mae'n llwyddo i ddringo'r graig a chymryd rhan ym mhob gweithgaredd.
Cywiro Cymraeg pawb	Ashtray = blwch llwch ayyb
Dewr	Mae Dei yn wynebu un o'i ofnau ar y cwrs sef ei ofn o uchder.

neu / ac unrhyw nodweddion eraill sy'n berthnasol.

d) i. Ansoddair – disgrifio sut mae Tecs Pecs yn ymddwyn o gwmpas Donna. Mae saim yn rhywbeth afiach a dydy Llion ddim yn hoffi gweld Tecs yn trio ei lwc efo Donna.

ii. Trosiad – mae galw Gags a Nobi yn ddau *wonderboy* yn dangos barn Tecs Pecs amdanyn nhw. Mae e'n hoff iawn ohonyn nhw oherwydd eu bod nhw mor dda mewn chwaraeon. Maen nhw fel cymeriadau sy'n arwyr o gylchgrawn cartŵn sydd â gallu gwych.

iii. Rhaid i chi nodi'r nodwedd arddull yn gywir, dyfynnu'n gywir a thrafod pam mae'n effeithiol.

dd) Enghraifft

Dw i'n poeni am Gags. Mae ei agwedd wedi newid llawer ers dod i'r ganolfan. Roedd e'n hyderus iawn ar y dechrau, yn coci hyd yn oed wrth ddringo'r mynydd. Roedd e eisiau arwain ond fe roddais i'r cyfle i Llion gael gwneud. Doedd e ddim yn hapus pan ofynnodd Llion i Gwenan arwain.

Ond mae e wedi newid ers hynny. Dydy e ddim wedi gwneud dim byd ers ychydig ddyddiau ond ffraeo gyda Nobi, ei ffrind gorau. Mae Nobi'n gallu bod yn dwpsyn ond doedd dim bai arno fe mewn gwirionedd pan syrthiodd e o'i ganŵ i'r llyn a thynnu Gags a Tecs Pecs i mewn gyda fe. Roedd pawb yn chwerthin oni bai amdanyn nhw! Ond fe wnaeth Nobi beryglu bywyd Gags pan oedd e'n dringo'r graig am nad oedd e'n canolbwyntio. Dechreuodd Gags lithro i lawr ond, yn lwcus, fe neidiais i am y rhaff a gafael ynddi. Awww, roedd fy llaw yn brifo wedyn oherwydd ffrithiant y rhaff.

A phan rewodd e ar ben y graig fawr wrth ddechrau'r abseil, roedd e fel person gwahanol. Gwnaeth e sŵn fel anifail mewn ofn. Dydy e ddim wedi gwneud dim ers hynny ond pwdu a ffraeo gyda phobl – fi, Nobi a Gwenan. Roedd e mor bengaled pan benderfynodd e ei fod e'n mynd i fynd yn ôl i'r Plas. Diolch byth fod Tecs wedi ymddangos ar yr amser cywir. Efallai ei fod e ychydig yn seimllyd ond fyddai Gags ddim yn gwrando dim arna i. Efallai mai oherwydd mai merch ydw i.

Dw i'n ei gofio fe a Nobi yn edrych yn hurt arna i pan sylweddolon nhw mai fi fyddai'n eu hyfforddi nhw yn y ganolfan. Roedden nhw'n genfigennus fod y timau eraill yn cael dynion i'w harwain nhw. Typical mentaliti tîm rygbi.

Ond mae Llion wedi datblygu ers bod yma. Mae ei hyder wedi tyfu wrth iddo fod mor barod i wneud y gweithgareddau ac roedd pawb yn gwrando arno heddiw wrth iddo gymryd rhan yn y gweithgareddau ymenyddol. Rydw i wedi awgrymu y dylai e ddod nôl yma i'r ganolfan fel swog yn y dyfodol. Mae Nobi a Dei wedi datblygu hefyd. Weles i'r ddau ohonyn nhw'n mwynhau yn y Twmpath ychydig funudau yn ôl.

Rwy'n siwr fy mod i'n gweld Gwenan yn sefyll y tu ôl i'r goeden yn fanna, Olwen sydd efo hi? Dydy Gwenan ddim yn hoff ohono i, dwi'n gwybod hynny. Mae hi'n meddwl fod Gags yn fy ffansïo i! Does dim rheswm ganddi i fod yn genfigennus. Yfed alcohol maen nhw? Rhaid i mi fynd yno i ymchwilio.

Darn Ymarfer 4

a) Pwy?
- Capten y tîm hoci
- Merch i weinidog

Pam?
- Ffrind Gwenan
- Cystadleuaeth rhyngddi a'r bechgyn
- Cariad Llion ar ddiwedd y nofel

b)
- Gwenan yn teimlo'n euog
- Cusanodd hi Llion y noson gynt
- Wedi chwydu dros esgidiau Llion
- Wedi pwdu gyda Gags

c) Gallwch sôn am un o'r canlynol:
- ar ôl dod nôl o gerdded i fyny'r mynydd pan oedd gan Gwenan swigen ar ei throed
- wrth i Gwenan gyfaddef nad oedd hi eisiau dod i'r ganolfan yn y lle cyntaf
- ar ôl gorffen y brawddegau yn y cwt adnoddau

neu unrhyw ddigwyddiad perthnasol arall.

ch) Bydd angen nodi NODWEDD a rhoi TYSTIOLAETH o'r nofel.

Gallwch chi sôn am bwyntiau fel:

Siapus a thlws	Mae Llion a Gags yn ffansïo Gwenan ac mae'n cael cariad newydd yn syth ar ddiwedd y nofel
Eithaf twp	Mae hi'n tueddu i ddweud pethau eithaf twp heb unrhyw gywilydd
Diog ac anystwyth	Cael lifft gan ei mam i bobman ac mae hi'n ysmygu.

Delwedd yn bwysig iddi	Gwisgo dillad anaddas ac anymarferol ar brydiau ar y trip ac yn crio pan mae hi'n torri un o'i hewinedd ar y graig.
Anffyddlon a chenfigennus	Mae hi'n snogio Llion ar noson y disgo er ei bod hi'n gariad i Gags ond yn gwylltio pan mae hi'n meddwl bod Gags wedi mynd y tu ôl i'r cwt adnoddau gyda Donna.

neu / ac unrhyw nodweddion eraill sy'n berthnasol.

d) i. Cymhariaeth – Crib iâr yw'r darn o groen sy'n sefyll i fyny ar ben yr iâr. Felly mae'n dangos fod gwallt Nobi yn sefyll i fyny ar ôl cysgu.

ii. Trosiad – Mae'n awgrymu bod llygaid Olwen yn llosgi'n goch gan ei bod hi wedi gwylltio. Mae hi'n cadw cefn Gwenan, ei ffrind, sydd wedi ypsetio gan ei bod hi'n meddwl bod Gags wedi bod gyda merch arall.

iii. Rhaid i chi nodi'r nodwedd arddull yn gywir, dyfynnu'n gywir a thrafod pam y mae'n effeithiol.

dd) Enghraifft

Dwi'n sefyll y tu allan i ystafell Roger y Pennaeth yn aros i Tecs Pecs roi fy nghanlyniadau i mi. Dei sydd i mewn ar hyn o bryd. Mae e'n siwr o wneud yn wych. Cant o A* mae'n siwr. A Gags hefyd fwy na thebyg. Dydy hi ddim yn deg. Mae e mor lwcus – teulu cyfoethog, lot o frêns, capten y tîm rygbi, pêl-droed a chriced. A chariad prydferth dros ben!

Rydw i mewn cariad gyda Gwenan ond doedd hi ddim yn gallu edrych arna i bore 'ma amser brecwast. Ddim ar ôl beth ddigwyddodd neithiwr. Rwy'n siwr ei bod hi'n difaru fy snogio i o dan y goeden. Oedd hi'n fy ffansïo i? Neu talu nôl i Gags oedd hi am fod mor gas gyda hi ers dyddiau? Efallai mai'r fodca oedd ar fai. Trueni ei bod hi wedi chwydu dros fy esgidiau i wedyn!

Ond mae Gags wedi bod mor gas yn ddiweddar efo Dei a fi. Fe wnaeth e roi fy mhen i i lawr y tŷ bach ar y noson gyntaf yn y ganolfan. Wedyn fe wnaeth e daflu dŵr dros fy ngwely i tra oeddwn i'n cysgu nes fy mod i'n credu fy mod i wedi gwlychu'r gwely pan ddeffrais i. Hen fwli cas yw e. Ro'n i wrth fy modd yn gwylio ei hyder e'n diflannu yn y gweithgareddau, yn syrthio i'r llyn wrth i Nobi droi'r canŵ. A buodd bron i Nobi ei ladd

e wrth iddo syrthio i lawr y graig fach am nad oedd Nobi'n canolbwyntio. Trueni bod Donna wedi'i achub e – efallai y byddai cnoc ar ei ben e wedi'i wneud e'n berson neisach.

Ond y gorau oedd ei weld e'n rhewi mewn ofn wrth wneud yr abseil. Gags, arwr Nobi, y bachgen *macho*, yn sgrechian fel merch fach ac yna'n pwdu! Fe fedrais i, Nobi, Olwen a Dei hyd yn oed gwblhau'r dasg. Pathetic! Mae Dei wedi gwneud yn dda ers dod yma. Mae e wedi llwyddo i wynebu ei ofn o uchder drwy ddringo'r graig ac abseilio. Ac er ei fod e'n cywiro Cymraeg pawb drwy'r amser ac yn bwyta Mars a chreision fel nad oes fory i'w gael, rwy'n hoff iawn ohono fe.

Ond dwi'n poeni am Gags bore 'ma. Mae e ar goll. Does neb yn gwybod ble mae e. Wnaeth e ddim cysgu yn ei wely ei hun neithiwr. Roedd pawb yn meddwl mai gyda Gwenan y byddai e wedi cysgu. Fe ddywedais i wrth Donna yn syth ar ôl brecwast ac mae hi a gweddill yr arweinwyr yn chwilio amdano fe ar hyn o bryd. Er fy mod i wedi dymuno'n ddistaw y byddai e'n torri ei goes ar ddechrau'r cwrs, doeddwn i ddim yn golygu hynny mewn gwirionedd.

Mae'r drws yn agor, mae Dei yn dod allan ac yn gwenu o glust i glust. Canlyniadau gwych yn amlwg. Hoffwn i wneud yn dda er mwyn gallu dangos i Dad a Merfyn, fy mrawd, fy mod i gystal â nhw bob tamed. Hoffwn i ddangos i Hitler fod Llinyn Trôns yn gallu gwneud pethau heblaw eistedd o flaen y cyfrifiadur yn dawel. Dwi'n credu y byddai e wedi cael sioc o fy ngweld i'n gwneud mor dda yn y gweithgareddau corfforol ac ymenyddol yma yn y ganolfan.

Mae Tecs yn fy ngalw i i mewn. Mae fy mol yn troi fel peiriant golchi. Croesi bysedd!

13. Cwis

Pennod 1

1. Beth yw enw brawd Llion?
2. Beth mae Llion yn galw ei dad?
3. Sut y cafodd Llion ei lysenw Llinyn Trôns?
4. Beth yw prif ddiddordeb Llion?
5. Pwy sy'n gyrru'r bws mini?
6. Pwy sy'n eistedd drws nesaf i Llion ar y bws mini?
7. Beth mae Nobi'n galw Llion a Dei?
8. Beth mae Gags a Gwenan yn ei wneud yng nghefn y bws?

Pennod 2

1. Tebyg i ble yw ystafelloedd molchi y ganolfan yn ôl Llion?
2. I bwy roddodd Llion lygad du yn yr ysgol gynradd?
3. Beth mae Llion wedi'i dorri yn ei dymer ar ôl i Gags a Nobi roi ei ben i lawr y tŷ bach?
4. Gyda phwy mae Llion yn rhannu ystafell wely?
5. Beth yw enw pennaeth y ganolfan?
6. Pwy sydd yng ngrŵp gweithgareddau Llion?

Pennod 3

1. Pwy oedd yn y jacwsi gyda Llion yn ei freuddwyd?
2. Pam roedd gwely Llion yn wlyb yn y bore?
3. Beth yw maint traed Llion?
4. Pa liw yw'r cotiau a'r trowsusau glaw mae angen iddyn nhw eu gwisgo wrth gerdded i fyny'r mynydd?
5. Sut mae Gwenan yn arfer teithio o le i le?
6. Pam mae Donna yn codi ei llais ar Nobi ar y mynydd?
7. Beth oedd enw merlen fynydd Donna pan oedd hi'n ifanc?
8. Llion yw'r ail i arwain y grŵp wrth gerdded i fyny'r mynydd. Pwy yw'r cyntaf i gael gwneud gan Donna?
9. Pwy sy'n helpu Llion i ddarllen y map yn gywir?
10. Pam mae Gwenan yn crio ar y ffordd i lawr y mynydd?

Pennod 4

1. Beth mae Dei yn ei sylweddoli ar ôl iddo lwyddo i fynd i mewn i'w ganŵ ac allan ar y llyn?
2. Pwy sy'n helpu Gwenan i gario ei chanŵ at y lan?

3. Beth mae Nobi'n ei ddweud sy'n bod ar ei ganŵ?
4. Pwy sy'n profi i Nobi ei bod hi'n bosib newid canŵ tra'u bod nhw dal ar y llyn?
5. Pwy sy'n syrthio i mewn i'r llyn?

Pennod 5

1. Gan nad ydy Dei yn hoffi cael ei alw'n "dew" beth mae'n fodlon cael ei alw?
2. Pa safle yn y tîm rygbi mae Llion yn credu fyddai'n siwtio Dei?
3. Pa raglen deledu roedd Llion wedi gofyn i'w fam ei recordio?
4. Beth mae Gwenan eisiau bod ar ôl gadael yr ysgol?
5. Pwy sy'n rasio'i gilydd wrth geisio dringo'r graig?
6. Pwy sydd ddim yn gwerthfawrogi'r cyngor mae Llion yn ei roi?
7. Pwy sy'n achub bywyd Gags gan nad yw Nobi'n canolbwyntio?
8. Pa anaf mae Donna yn ei gael?
9. Pam mae Dei yn rhewi ar ben y graig?
10. Pa drychineb sy'n digwydd i Gwenan wrth iddi ddringo?

Pennod 6

1. I ba ffilm mae Llion yn cymharu'r olygfa ar y ffordd i fyny'r graig fawr?
2. Pwy wnaeth ladd ei hun erstalwm drwy daflu ei hun o ben y graig?
3. Pwy oedd y cyntaf i abseilio?
4. Pwy sydd ddim yn llwyddo i gwblhau ei abseil?
5. Beth sy'n achosi i Gags beidio â mynd yn ôl i'r plas fel mae'n bygwth gwneud?
6. Beth sy'n digwydd yn yr ystafell wely drws nesaf i Llion yn y nos?

Pennod 7

1. Beth ddigwyddodd yn ystod y nos?
2. Beth yw darn gorau'r cwrs i Gwenan hyd yn hyn?
3. Beth yw darn gorau'r cwrs i Gags?
4. Pryd oedd Llion wedi teimlo fel mynd adref?
5. Pam mae Gwenan yn dewis Llion fel yr un wnaeth ei helpu hi?
6. Pam mae Olwen yn dewis Dei fel yr un wnaeth ei helpu hi?
7. Pwy helpodd Nobi?

Pennod 8

1. Beth yw'r dasg gyntaf mae'n rhaid i'r criw ei chwblhau yn y goedwig?
2. Sut maen nhw'n llwyddo i gwblhau'r dasg?
3. Beth yw uchder y graig mae angen iddyn nhw ei dringo?
4. Sut mae Gags yn llwyddo i gyrraedd pen y graig yn y diwedd?

Pennod 9

1. Beth oedd i swper ar y noson olaf?
2. Pa ddau weithgaredd sydd gyda'r nos?
3. I ble mae Gags a Nobi yn mynd rhwng y twmpath a'r disgo?
4. Beth mae Gwenan ac Olwen yn ei wneud y tu ôl i goeden?
5. Beth yw gwaith tad Olwen?
6. Beth sy'n digwydd wrth i Gwenan a Llion snogio?
7. Pam mae Gwenan yn gwylltio gyda Donna?
8. Pwy sy'n dawnsio (yn rhy agos) gyda Donna ar ddiwedd y disgo?

Pennod 10

1. Ble mae Nobi'n credu mae Gags wedi treulio'r nos?
2. Beth yw canlyniadau TGAU Llion?
3. Pwy ddaeth o hyd i gorff Gags?
4. Ble daethon nhw o hyd i gorff Gags?
5. Pa bwnc mae Llion am ei astudio yn y chweched dosbarth?
6. Beth sy'n debyg rhwng Gags a Jason (cariad newydd Gwenan)?
7. Pwy yw cariad Llion ar ddiwedd y nofel?
8. Pa ddau beth mae'r criw am ei wneud er mwyn cofio am Gags?

Dadansoddi Arddull

Pa nodweddion arddull sydd yn y dyfyniadau canlynol. Ceisiwch esbonio pam fod pob un yn addas neu'n effeithiol.

- Beth mae'n ei ddangos am y cymeriad?
- Beth mae'n ei ddangos am y sefyllfa?

1. Tecs Pecs ar noson y twmpath pan nad oedd y criw eisiau cymryd rhan:-
   "Mi wnaethon ni drio osgoi cael ein hel yno, ond roedd Tecs Pecs yn hofran o gwmpas y lle fel rhyw eryr mawr hyll, a doedd gynnon ni'm dewis."

2. Wrth ddod i lawr y mynydd yn y glaw:-
   "Ro'n i'n gallu teimlo afon fechan yn llifo i lawr fy nghefn i..."

3. Wrth ystyried pam fod Nobi'n hapus ar y bore olaf yn y ganolfan:-
   "... roedd o'n amlwg wedi cael amser da efo rhyw greadures ddall efo IQ dafad."

4. Am yr esgidiau dringo oedd yn rhy fach i Llion:-
"Roedd bawd fy nhroed chwith i'n sgrechian ynddyn nhw."

5. Yr olygfa o ben y mynydd:-
"Draw yn y pellter, roeddan ni'n gallu gweld copaon mynddoedd eraill yn codi fel ynysoedd drwy'r tonnau o gymylau."

6. Dei wrth Llion ar ôl i Nobi a Gags chwarae tric arno:-
"Mae gan hamster fwy o frên na'r sinach Nobi 'na."

7. Wrth ddisgrifio Gags yn colli ei hyder wrth abseilio:-
"... methu credu bod Gags, yr hogyn mawr, cry, athletaidd a oedd mor siwr ohono'i hun, yn griddfan ar ei bedwar, jest â beichio crio."

8. Gwenan ar ôl iddi sylweddoli fod Gags ar goll:-
"Roedd Gwenan yno, yn sefyll yn stond ... yn troi a throi hances bapur yn ei llaw, nes roedd 'na ddarnau ohoni'n gonffeti ar y llawr."

9. Ar ôl i Llion ddarganfod bod ei wely'n wlyb:-
"Safai Nobi a Gags yno yn wên o glust i glust."

10. Ar ôl i Nobi, Gags a Tecs Pecs syrthio i'r dŵr:-
"Daeth y tri i'r wyneb fel pysgod aur ..."

11. Wrth i bawb chwerthin ar ben Gwenan am dorri un o'i hewinedd wrth ddringo:-
"Fe wylltiodd hi'n gacwn wedyn, a 'naeth hynny i Olwen a finnau chwerthin yn waeth."

12. Wrth ganŵio ar y llyn:-
"Ro'n i rhwng Gags a Tecs, yn frechdan rhwng y Pecs."

13. Wrth ddisgrifio Gwenan:-
"Mae hi'n babe. Stoncar, stynar, pishyn, rheina i gyd."

14. Llion yn trafod sut mae'n cadw ei dymer pan mae wedi gwylltio:-
"Dw i'n tueddu i gadw'n act Vesuvius i 'nghartre."

15. Gwenan wrth herio Donna yn y disgo:-
"Roedd y ddwy'n sbio ar ei gilydd fel dau geiliog ..."

Ansoddeiriau

Pa rai o'r ansoddeiriau canlynol sy'n disgrifio'r cymeriad orau. Pam, meddyliwch am ddigwyddiadau sy'n profi er mwyn cryfhau eich dadleuon?

Gwenan	Diog	Clyfar	Cenfigennus	Meddylgar
Nobi	Cyfeillgar	Ffyddlon	Sbeitlyd	Teimladwy
Llion	Hyderus	Di-hyder	Amyneddgar	Caredig
Olwen	Teg	Diog	Cystadleuol	Annifyr
Gags	Cystadleuol	Hyderus	Di-amynedd	Golygus
Dei	Diog	Mentrus	Penderfynol	Gwan

Gosod mewn trefn

a) Rhowch ddigwyddiadau'r cwrs yn eu trefn.

Cyrraedd

Disgo

Canŵio

Twmpath

Ymarferion ymenyddol

Dringo craig

Abseilio

Dringo mynydd

Gadael

b) Rhowch ddigwyddiadau'r nofel yn eu trefn.

1. Nobi, Gags a Tecs Pecs yn syrthio i'r llyn
2. Derbyn canlyniadau TGAU
3. Chwythu chwiban oren sy'n hongian oddi ar gangen
4. Llion yn deffro mewn gwely gwlyb
5. Gags yn methu â chwblhau'r abseil
6. Olwen yn helpu Llion i ddarllen map
7. Angladd Gags
8. Nobi bron ag achosi i Gags gael damwain wrth ddringo
9. Gwenan yn ffraeo gyda Donna
10. Gags a Nobi yn rhoi pen Llion yn y tŷ bach
11. Donna yn sôn am hanes merch y plas yn taflu ei hun o ben y graig
12 Tecs Pecs yn rhoi ffrae i Gags a Nobi am ymladd ei gilydd
13. Dei yn cael sws gan ei fam
14. Gwenan, Olwen a Llion yn yfed fodca
15. Gwenan yn cwyno fod ganddi swigod dan ei thraed
16. Donna'n dod o hyd i gorff Gags
17. Donna yn sôn am Cwmwl, ei merlen fynydd
18. Dei yn cael woblar ar ben y graig

14. Atebion y Cwis

Pennod 1

1. Merfyn
2. Hilter
3. Gan ei dad pan oedd Llion yn cymryd rhan yn y ras wy ar lwy yn yr ysgol gynradd.
4. Chwarae ar y cyfrifiadur
5. Tecs Pecs
6. Dei
7. Little & Large
8. Snogio

Pennod 2

1. Alcatraz
2. Mandy Jones
3. Sedd y tŷ bach
4. Dei, Jason ac Alun
5. Roger
6. Gags, Nobi, Dei, Gwenan, Olwen

Pennod 3

1. Pamela Anderson, Cerys Mathews a Gwenan
2. Oherwydd bod Gags a Nobi wedi tywallt dŵr yn y gwely tra oedd Llion yn cysgu er mwyn iddo feddwl ei fod wedi gwlychu'r gwely yn ei gwsg.
3. 7
4. Oren
5. Mae ei mam yn rhoi lifft iddi i bobman.
6. Am ei fod yn taflu ei sbwriel (papur Mars) i'r gwynt.
7. Cwmwl
8. Dei
9. Olwen
10. Oherwydd bod ganddi swigod o dan ei thraed.

Pennod 4

1. Ei fod wedi gadael ei rwyf ar y lan.
2. Llion
3. Y steering wedi cocio i fyny neu rwbath gan ei fod yn troi mewn cylchoedd.
4. Olwen
5. Nobi, Gags a Tecs Pecs

Pennod 5

1. Mawr
2. Prop
3. South Park
4. Actores
5. Gags ac Olwen
6. Olwen
7. Donna
8. Llosgi ei llaw gyda ffrithiant y rhaff.
9. Mae wedi edrych i lawr a sylweddoli fod ganddo ofn uchder.
10. Mae un o'i hewinedd yn torri.

Pennod 6

1. Jurassic Park
2. Merch y plas (18 oed)
3. Nobi
4. Gags
5. Mae Tecs Pecs yn ymddangos ac mae Gags yn tawelu.
6. Mae Gags, Nobi a'r criw yn cael parti – yfed alcohol ac ysmygu cyffuriau.

Pennod 7

1. Cafodd Nobi a Gags ffrae a daeth Tecs Pecs yno i roi trefn arnyn nhw.
2. Pan ddisgynnodd Gags, Nobi a Tecs Pecs i'r llyn.
3. Pan fydd yn cael mynd adref.
4. Pan gyrhaeddodd gan nad oedd eisiau dod yna yn y lle cyntaf.
5. Am ei fod wedi aros gyda hi'n gwmni wrth gerdded i fyny'r mynydd.
6. Am ei fod wedi ei helpu i gario'i chanŵ o'r llyn pan oedd ei bysedd wedi rhewi.
7. Dei, wrth ei helpu'n ôl i'w ganw ar ôl syrthio i'r llyn.

Pennod 8

1. Chwythu chwiban oren sy'n hongian ar ddarn o gortyn oddi ar gangen coeden.
2. Drwy wneud pyramid
3. 10 troedfedd
4. Drwy redeg at y graig, defnyddio'i droed yn erbyn y graig wrth neidio (gyriant), gafael yn Nobi sy'n hongian i lawr o'r top a dringo i fyny ei gorff.

Pennod 9

1. Sosej, bîns a tships
2. Twmpath a disgo
3. Tu ôl i'r cwt adnoddau
4. Yfed fodca
5. Gweinidog
6. Mae Gwenan yn chwydu ei swper dros esgidiau Llion.
7. Am ei bod hi'n credu ei bod hi wedi gweld Donna yn mynd y tu ôl i'r cwt adnoddau gyda Gags ac mae hi'n genfigennus.
8. Tecs Pecs

Pennod 10

1. Gyda Gwenan
2. 1A, 5B, 3C
3. Donna
4. Wrth droed y graig lle buon nhw'n abseilio.
5. Daearyddiaeth
6. Mae gwallt melyn gan y ddau.
7. Olwen
8. Mynd i ben yr Wyddfa i weld y wawr yn torri a phlannu coeden yng nghae'r ysgol.

Dadansoddi Arddull

Nid oes modd rhoi'r atebion ynglŷn â "pham ei fod yn effeithiol" gan mai holl bwrpas y gweithgaredd yw eich cael chi i feddwl drosoch eich hunain a chyfiawnhau eich atebion.

1. Cymhariaeth
2. Trosiad
3. Hiwmor
4. Personoli
5. Cymhariaeth

6. Hiwmor
7. Rhestru ansoddeiriau
8. Trosiad
9. Idiom
10. Cymhariaeth
11. Idiom
12. Trosiad
13. Rhestru
14. Trosiad
15. Cymhariaeth

Ansoddeiriau

Nid oes modd rhoi'r atebion ynglŷn â "pham ei fod yn effeithiol" gan mai holl bwrpas y gweithgaredd yw eich cael chi i feddwl drosoch eich hunain a chyfiawnhau eich atebion.

Atebion

Gwenan	*Diog a Chenfigennus*
Nobi	*Ffyddlon a Sbeitlyd*
Llion	*Pob un ohonyn nhw ar wahanol adegau*
Olwen	*Teg a Chystadleuol*
Gags	*Pob un ohonyn nhw ar wahanol adegau*
Dei	*Mentrus a Phenderfynol*

Gallwch gyfiawnhau eich atebion drwy gyfeirio at nifer o wahanol ddigwyddiadau yn ystod y nofel.

Gosod mewn trefn

a) *cyrraedd, dringo mynydd, canŵio, dringo craig, abseilio, ymarferion ymenyddol, twmpath, disgo, gadael.*

b)

1. Dei yn cael sws gan ei fam
2. Gags a Nobi yn rhoi pen Llion yn y tŷ bach
3. Llion yn deffro mewn gwely gwlyb
4. Donna yn sôn am Cwmwl, ei merlen fynydd
5. Olwen yn helpu Llion i ddarllen map
6. Gwenan yn cwyno fod ganddi swigod dan ei thraed
7. Nobi, Gags a Tecs Pecs yn syrthio i'r llyn
8. Nobi bron ag achosi i Gags gael damwain wrth ddringo
9. Dei yn cael woblar ar ben y graig
10. Donna yn sôn am hanes merch y plas yn taflu ei hun o ben y graig
11. Gags yn methu â chwblhau'r abseil
12. Tecs Pecs yn rhoi ffrae i Gags a Nobi am ymladd ei gilydd
13. Chwythu chwiban oren sy'n hongian oddi ar gangen
14. Gwenan, Olwen a Llion yn yfed fodca
15. Gwenan yn ffraeo gyda Donna
16. Derbyn canlyniadau TGAU
17. Donna'n dod o hyd i gorff Gags
18. Angladd Gags